# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

**RHIF 124** **EBRILL 1986**


# AGOR CIL Y DRWS

MAE AMGUEDDFA Werin Cymru, Sain Ffagan, ar fin cyhoeddi manylion cynllun uchelgeisiol a dadleuol i ddenu rhagor o ymwelwyr a chynyddu'n sylweddol yr incwm a dderbynir.

Daw'r newydd yn fuan wedi'r penderfyniad i godi tâl mynedad i'r Amgueddfa Werin i £2 - penderfyniad a feirniadwyd yn hallt gan undebau'r staff ac aelodau o gorff llywodraethol yr Amgueddfa, y Llys.

Y bwriad yw codi rhagor o arian ar gyfer talu am ddatblygiadau newydd yn y dyfodol. Os nad yw'n llwyddo, ofnir y bydd yn rhaid i Sain Ffagan gau ei drysau am gyfnodau helaeth o'r flwyddyn.

O Fehefin 16 ymlaen bwriedir agor drysau'r adeiladau nid yn unig i ymwelwyr achlysurol, ond i deuluoedd cyfan, a fydd yn gallu aros yno am gyfnod o wythnos ar y tro.

Yn nhraddodiad gorau'r Amgueddfa, nid gwyliau cyffredin mo rhain. Disgwylir i'r teuluoedd - tra'n ymgodymu â thwristiaid busneslyd yn ystod y dydd - fyw bywyd sy'n cyfateb a naws a thraddodiadau y cyfnod y safai'r tai ynddynt yn eu safleoedd gwreiddiol.

Disgwylir i deulu sy'n dymuno aros yn ffermdy Hendre'r Ywydd Uchaf am £7 yr un y noson, er enghraifft, fyw fel teulu amaethyddol o'r ail ganrif ar bymtheg, yn rhannu'r tŷ gydag anifeiliaid y fferm, a swatio gyda'r nos o gwmpas y tan mawn yng nghanol y llawr. Byddant yn coginio bwydydd nodweddiadol o'r cyfnod - llysiau o'r ardd, neu ambell i iar o'r buarth.

Fe gyst wythnos yn Abernodwydd £10 yr un, ond fe geir defnydd ecscliwsif o'r llaethdy, y fuddai a'r gwasg gaws. Fe geir y moethusrwydd hefyd o gysgu dan garthenni traddodiadol mewn gwely cwpwrdd yn y siambr. Mae yna simnai hefyd yn y tŷ hwn.

Ar y llaw arall fe fydd wythnos ym moethusrwydd Kennixton, tŷ llawer mwy cyfforddus gyda llawr morter lle y cewch ddefnyddio holl gyfleusterau'r gegin a ychwanegwyd i'r adeilad gwreiddiol yn nechrau'r 18fed ganrif.

Fe fydd holl adeiladau'r Amgueddfa at ddefnydd yr ymwelwyr. Fe gynnwys hyn y Castell hardd ei hun. Am £50 y noson caiff rhywun ail-fyw moethusrwydd pendefigaidd bywyd bras y Plymouths. Cysgu mewn gwely pedwar poster, cerdded yn hamddenol trwy'r gerddi ffurfiol, a chael staff yr amgueddfa i weini arno neu arni drwy gydol ei ymweliad.

Gobaith yr Amgueddfa yw y bydd y cynllun - a fydd yn gweithredu dros gyfnod arbrofol o dri mis eleni - yn ychwanegu'n sylweddol at incwm Sain Ffagan. Ond eisoes mynegwyd gwrthwynebiad gan rai aelodau o Lys yr Amgueddfa sy'n pryderu am effaith yr holl weithgarwch ar yr adeiladau. Dywedodd un aelod, nad oedd am gael ei enwi ar hyn o bryd, nad oedd "unrhyw bwrpas yn y byd i gynyddu'r incwm os yw'r cynllun yn mynd i arwain at ddifrodi'r adeiladau, a chosatu cynyddol i'r Amgueddfa yn y pendraw".

Mynegwyd gwrthwynebiad chwyrn i'r holl gynllun gan yr undebau. Eisoes maent wedi bygwth peidio â chydweithredu trwy wrthod gweini ar ymwelwyr yn y Castell. Dywedodd llefarydd ar eu rhan: "Mae'n gynllun hollol wallgo'. A'n ofn ni yw mai dyma fydd agor y drws i breifateiddio'r Amgueddfa".



Castell Sain Ffagan - y cam cyntaf tuag at breifateiddio neu gynllun mentrus a fydd yn diogelu dyfodol yr Amgueddfa? Amser yn unig a ddengys.

# CALEDFWLCH DAN Y DON

MAE GWELD cwmni teledu bychan yn y sector annibynnol yn mynd i'r wal yn olygfa cyfarwydd i wylwyr y ddrama gyfres "Dinas". Ond bellach daeth yn realiti yn nociau'r Brifddinas - a hynny ar adeg pan ddywedir i'r sector annibynnol fod yn llwyddo ac yn ehangu.

Wedi pedair blynedd o weithredu galwyd y derbynwyr i mewn i weithdai golygu ffilm Caledfwlch yn Sgwâr Mount Stuart yn y Dociau ar ddydd Iau 6 Mawrth.

Oherwydd dyledion treth i Gyllid y Wlad a dyledion Treth ar Werth i Swyddogion y Tollau, penderfynodd cyfarwyddwyr Caledfwlch Productions Ltd., i alw ar y derbynwyr i gymryd gofal o'r cwmni.

Roedd y cwmni, a gyflogai wyth o bobl, wedi wynebu trafferthion ariannol yn fuan wedi'i sefydlu, pan aeth y cwmni cynhyrchu Sgrin 82 o Aberystwyth i'r wal gan adael dyledion sylweddol. Cadwyd Caledfwlch yn fyw gan fenthyciad, ond gosododd hynny bwysau ychwanegol ar y llif arian.

Problem Caledfwlch, i ryw raddau o leiaf, oedd y ffaith bod y cwmni'n llwyddo. Yn hytrach na dibynnu ar waith i S4C yn unig, roedd yn torri ffilm i'r BBC a HTV. Tyfodd y cwmni'n gynt na'r disgwyl, a buddsoddwyd mewn mwy o offer.

Ond daeth yn amlwg nad oedd yna gymaint o waith ar gael ag a dybiwyd. Un rheswm am hyn yw natur tymorol y gwaith - ceir gormodedd o waith rhwng y Gwanwyn a'r Nadolig, a dim digon yng ngweddill y flwyddyn. Rheswm arall yw'r ffaith fod HTV bellach wedi gorffen golygu "Return To Treasure Island" ac felly heb fod â chymaint o angen cymorth allanol.

Ond pwysleisiodd Martin Sage, un o'r sefydlwyr nad oedd neb heblaw am y cyfarwyddwyr i feio am yr hyn a ddigwyddodd: "Does neb ar fai ond y ni am wneud penderfyniadau masnachol anghywir".

Gan fod y cwmni wedi sylweddoli beth oedd yn digwydd gwnaed ymdrech fawr i geisio cynorthwyo pawb a fu'n gweithio i Caledfwlch. Cafwyd cryn lwyddiant ac ar hyn o bryd, mae pob un o'r staff yn cael eu cyflogi gan gwmniau eraill.

Daeth newyddion gwell am y diwydiant teledu o'r Ŵyl Ffilmiau Celtaidd a gynhaliwyd yn Newcastle, County Down, Gogledd Iwerddon. Enillwyd tair o'r prif wobrau gan gynhyrchiadau Cymreig.

Aeth dwy i'r BBC - am y ddrama-ddogfen "Penyberth" ac am ffilm Karl Francis am streic y glowyr,"Ms. Rhumney Valley, 1985" - ac enillwyd y wobr fideo gan gwmni Teliesin am y fideo "Enka" a gyfarwyddwyd gan Richard Powelko. (Enillodd y record hir o'r un enw gan Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr y wobr am record hir orau'r flwyddyn yn noson wobrwyo'r cylchgrawn "Sylw".) Ond tra roedd staff Teliesin yn casglu'r wobr yn yr Ŵyl Ffilmiau lladratawyd eu hoffer fideo o'u pencadlys yn Sgwâr Mount Stuart.

MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN
MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN
MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN
MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN

OS HOFFECH hysbysebu yn y golofn hon anfonwch eich hysbyseb atom cyn gynted â phosibl. £1 y linell.

---

YN EISIAU:
Cofiannau Thomas Gee neu Emrys ap Iwan gan T.Gwynn Jones. Ffoniwch: 752755

---

AR WERTH:
Dau garped Oriental gwlan pur wedi'u gwneud â llaw.
Caerdydd 564853

---

Angen Cymraes broffesiynol i rannu tŷ yn Nhreganna.

Ffôn: 30337



---

AR WERTH:
Gwely sengl. Pen a throed o dderw.
Matras sbring a chwrlid gwyn. £25.
Y prynwr i'w 'nôl. Caerdydd 756882.

---

AR WERTH:
"Ac Onide" - J.R.Jones. Llyfrau'r Dryw, 1970. £7.50. Caerdydd 553523.

---

GWAHODDIAD I GYFRANNU

Os hoffech gynorthwyo'r Dinesydd mewn unrhyw fodd - ysgrifennu, tynnu lluniau, dosbarthu, casglu hysbysebion neu beth bynnag, mae yna groeso twyngalon yn eich disgwyl ymhlith rhengoedd y ffyddloniaid sy'n gyfrifol am roi'r papur at ei gilydd.

Os oes gennych syniadau am sut i wella'r Dinesydd neu ddiddoredeb mewn paratoi papur ar gyfer y wasg ymunwch a ni. Ni chynnigir unrhyw dal na threuliau ond gallwn gynnig gwaith caled a llawer o hwyl. Beth amdani? Os oes diddordeb gennych cysylltwch a Shân Emlyn, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD.

---

# Anadl einioes

EFALLAI EU bod mewn dyfroedd dyfnion ar y cae pel-droed, ond mae'r Clwb Cymric wedi derbyn newyddion calonogol ar gyfer y tymor nesaf. Mae gan Lerpwl eu "CROWN" a Manchester United eu "SHARP", a phan ddaw dewrion y Cymric i'r maes yn mis Medi bydd ganddynt grysau newydd wedi'u prynu gan, ac yn cario enw, Labordai Lion, y Barri. Mae'r cwmni, sy'n eiddio i'r Dr. Tom Jones, yn adnabyddus, wrth gwrs, fel cynhyrchwyr yr anadlenydd electronig newydd, yr enwog "Lion Intoxemeter". Does ond gobeithio an fydd y chwareawyr yn meddwi ar eu llwyddiant.

---

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Ebrill at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn EBRILL 17.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffon: 562816.

EBRILL:

3,4 & 5 Theatr y Sherman 8.00
Cwmni Hwyl a Fflag
"Wastad ar y Tu Fas"

9 - Cymdeithas y Dysgwyr
Tŷ'r Cymry 8.00

11 - Cymrodorion Caerdydd
Festri Minny St.
Noson gan Ferched y Wawr, Caerdydd
Cadeirydd y noson:
Mrs. Irene Anthony Davies

12 - Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd
Festri Capel Bethel, Heol Penlline
Yr Eglwys Newydd 7.30
Mrs. Anne Davies

12 - Clwb Ifor Bach
Simon Fisher and his band

12 - Taith Ar Log & Dafydd Iwan
Canolfan Hamdden Penyrheol,
Gorseinon. 8.00
Tocynnau: 0792 897039

12 - Theatr Chapter 8.00
Cwmni Cyfri Tri yn cyflwyno
Eldorado Jones

13 - Taith Ar Log & Dafydd Iwan
Theatr y Sherman 8.00
Tocynnau: 0222 30451

14 - Cymdeithas Minny St
Noson Gymdeithasol yn ngofal
y Parchedig Eifion Powell.

16 - Clwb Ifor Bach
Cymru V Gweddill y Byd
Bydd y clwb ar agor o hanner dydd
& adlonaint yn yr hwyr.

16 - Cymdeithas Minny St.
Noson Gymdeithasol yng ngofal
y Parchedig Eifion Powell.

19 - Clwb Ifor Bach
Meic Stevens a'r Band

19 - Cylch Meithrin Dinas Powis
Noson o Gaws a Gwin yng nghwmni
Caryl Parry Jones a'i ffrindiau.

21 - Clwb Ifor Bach
Cyfarfod Cyffredinol 7.30
Croeso i aelodau a darpar-aelodau

21 - Clwb Ifor Bach
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Trafodaeth

21 - Y Twr Trafoli
"Ffydd ac Amheuaeth"
Clwb Ifor Bach 7.30
Croeso i bawb!

26 - Clwb Ifor Bach
Noson Cwpan Schweppes

26 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol
Gyfun Gymraeg Glantaf.
Twmpath Dawns yn neuadd yr Ysgol.
Tocynnau £3 (yn cynnwys cawl).

30 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Heward Rees

MAI

1 - Clwb Ifor Bach
Parti Dysgwyr De Mrgannwg

2 - Clwb Ifor Bach
Maracca & grwp lleol

3 - Clwb Ifor Bach
Ray Jones a'i Fand

2-5 Plas Tan-y-Bwlch
Cwrs Cerdded y Mynyddoedd i
ddysgwyr Cymraeg.

5-16 Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Pythefnos yr Ardal.
Gwerthu planhigion o dŷ y Dr.
Don Anderson.

9 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
Ocsiwn yn Nhrewilter Fawr.

10 - Clwb Ifor Bach
Nos dan olaf Cymdeithas yr Iaith
a'r Mudiad Gwrth-Aparteid

10 - Y Twr Trafoli
Taith Gerdded noddedig
Manylion gan Meinir (752522) neu
Siân (26958)

12 - Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
"Gallu a Gwirionedd" sgwrs gan
Kynric Lewis, Cwsnler ei Mawrhydi
Clwb Ifor Bach 8.00

21 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Cyfarfod Blynyddol

22 - Cymdeithas Gymraeg Bro Radur
Crwydro'r Fro.

DEWCH I FWYNHAU GWYLIAU

YN Y CANOLBARTH

CARAFAN AR GAEL - ARDAL LLANWRTYD

Croeso arbennig i Gymry Cymraeg ac i ddysgwyr.

Ffôn: 05913 - 303



TAITH "AR ÔL DEG"

DOES DIM amheuaeth mai un o'r partneriaethau mwyaf llwyddiannus a phoblogaidd a welodd Cymru ers blynyddoedd oedd Dafydd Iwan ac Ar Log. cafwyd dwy daith hynod o lwyddiannus - "Taith 700" a "Taith Macsen" (1982 a 1983). Cafwyd hefyd dwy record hir "Rhwng Hwyl a Thaith" a "Yma o Hyd", a phwy sydd heb glywed y ddwy gan "Cerddwn Ymlaen" a "Yma o hyd"?

Eleni mae Ar Log yn ddeg oed, ac i ddathlu deng mlynedd o deithio, trefnwyd taith arbennig iawn: taith "Ar ol Deg". Gwahoddwyd dau gyn-aelod o'r grwp i gymryd rhan - Graham Pritchard a Dave Burns (un o'r sylfaenwyr). Y cam mawr nesaf oedd perswadio Dafydd Iwan i deithio eto, a doedd hynny ddim yn dasg anodd!

Mae'r barneriaeth unigryw hon ar daith yng Nghymru unwaith eto, a dyma'r dyddiadau:

Ebrill 12: Canolfan Hamdden Penyrheol, Gorseinon. 8.00 Tocynnau: 0792 897039
Ebrill 13: Theatr y Sherman, Caerdydd 8.00 Tocynnau: 0222 30451
Am fwy o fanylion cysylltwch â:
Gwyndaf Roberts: 0792 884639 neu
Dafydd Roberts: 0222 397318.

# PROFEDIGAETHAU

## JOHN EWART JONES

YN YSTOD mis Chwefror eleni bu i Eglwys Ebeneser, Caerdydd, a chymdeithas Gymraeg y ddinas golli un o'u hanwyliaid mwyaf ym marwolaeth John Ewart Jones. Ganwyd ef ym 1920, yr hynaf o bump o blant, ac addysgwyd ef yn Ysgol Gynradd Abercraf ac yn ysgol Ramadeg Maes y Dderwen, Ystradgynlais. Yn bedair ar ddeg, oherwydd amgylchiadau'r teulu, bu'n rhaid iddo adael yr ysgol a mynd i weithio yn y pwll glo lleol. Er hynny bu iddo barhau ei addysg trwy deithio bob wythnos i Goleg Technegol Abertawe.



Pan ddaeth y rhyfel ym 1939, ymunodd â'r llynges ac yn ystod y chwe blynedd canlynol bu'n gwasanaethu ar nifer o longau, yn eu plith yr enwog Warspite. Teithiodd o amgylch y byd ddwywaith ond trwy gyfnod y rhyfel, ni bu iddo weld ymladd fel y gwelodd cynifer o'i gyfoedion. Atgofion am weld dinasoedd a chwilio am gapeli a chanu mewn côrau oedd ganddo yn hytrach na thywallt gwaed, a diolchodd lawer gwaith am hynny.

Wedi gadael y llynges, penderfynodd fynd i ddysgu. Bu yng Ngholeg Addysg Caerdydd ac mewn coleg cerdd yn Epsom. Dechreuodd ei yrfa fel athro yn ysgol Strood Hill, un o ysgolion Eglwys Loegr, yn Rochester ac yn fuan wedyn, cyfarfu â Jean a oedd i ddod yn briod iddo.

Symudodd y ddau i Gaerdydd wedi i John gael ei benodi'n athro yn ysgol Rhiwbeina a daethant yn aelodau o Eglwys Ebeneser. Ni chafwyd aelodau ffyddlonach erioed a bu eu cyfraniad yn hynod ar hyd y blynyddoedd. Penodwyd John yn ddirprwy brifathro ysgol Craig y Parc ym Mhentyrch wedyn ac ym 1961 symudodd eto i ysgol newydd yn Heol Llanishen Fach. Ym 1965 penodwyd ef yn brifathro Ysgol Llanbedr y Fro ac yno y bu hyd ei ymddeoliad ym 1981.

Yr oedd ganddo nifer o ddiddordebau. Hoffai sylwi ar ryfeddodau byd natur, hoffai arddio a cherdded. Ond ei brif ddiddordeb oedd cerddoriaeth. O'i ddyddiau cynnar bu'n canu, ac fe ganodd ar hyd ei oes. Ofer fyddai ceisio rhestru'r holl gorau y bu'n canu gyda hwy a gellir dweud ein bod wedi dod i gredu nad oedd yr un côr yn yr ardal yn gyflawn heb iddo fod wedi canu ynddo. Ceisiai ennyn diddordeb plant mewn cerddoriaeth ar hyd ei yrfa, yn yr ysgol ac yn y capel. Bu am gyfnod gyda Cherddorfa Ieuenctid Cymru yn teithio Ewrop, ond rhoddai yr un sylw gofalus i gerddorfa fechan y plant ar fore Sul.

Yr oedd ei ddiddordeb yn fawr yng nghaniadaeth y cysegr. Yr oedd yn arweinydd cymanfaoedd ac yn arweinydd y gân yn Ebeneser. Ystyriai mai braint oedd cael ymgymryd â'r gwaith hwn; gwasanaeth ydoedd er clod i'r Gwaredwr.

Dros gyfnod o un mlynedd ar bymtheg bu John Ewart yn ddiacon gweithgar a ffyddlon yn Ebeneser. Prin fod unrhyw agwedd o fywyd yr Eglwys nad oedd ef a rhan ynddo a gwyddom y bydd bwlch mawr ar ei ôl. Cyflawnai bob dyletswydd gyda sirioldeb a gwnaeth gyfraniad gwerthfawr yn y Cwrdd Gweddi a'r Cwrdd Diaconiaid.

Wedi ei ymddeoliad aeth i ymddiddori mewn "Cymorth Cyntaf" ac ymaelodi ag Ambiwlans St. Ioan. Daethom yn gyfarwydd â'i weld yn ei lifrai mewn cyngherddau ac ar y maes rygbi ac fel gyda phopeth arall, ymroes i'r gweithgarwch hwn a'i holl egní.

Lai na blwyddyn yn ôl gwelsom yr arwyddion cyntaf o afiechyd, ond wrth i'r wythnosau fynd heibio ni fu pall ar sirioldeb John. Diolchai am fendithion pob dydd yn ei dro ac yn arbennig am gwmni ei ddwy wyres fach, Llinos a Nia. Gwynebodd ei gystudd heb rwgnach dim gan ddangos cadernid ffydd i'r diwedd un.

Bu Jean, Mrs. Powell a Delyth yn fawr iawn eu gofal drosto yn ei afiechyd a chydymdeimlwn yn ddwys â hwy yn eu colled. Bu farw John ar 27 Chwefror yn 65 mlwydd oed, a mawr yw hiraeth Cymry Caerdydd a'i gyfeillion yn Ebeneser ar ei ôl. Ar ddydd yr angladd, 6 Mawrth, yr oedd Ebeneser yn orlawn ac y mae hynny'n siwr o fod yn dystiolaeth ynddo'i hun i natur cymeriad a chyfraniad ein cyfaill annwyl. Ni allwn ond bod yn ddiolchgar am gael ei adnabod. Bu ei fywyd ef yn fodd i gyfoethogi bywydau cymaint ohonom ni.

Geraint Tudur.

## DAFYDD HARRIS

BU FARW Dafydd Harris, Holm View, Heol Sili, Penarth ar 20 Ionawr 1986 yn Ysbyty Llandochau yn 49 mlwydd oed. Bu ei angladd yn Eglwys Sant Edward, Trefyclo, Powys.

Mab fferyllydd yn Llandrindod oedd Dafydd a ddysgodd Gymraeg flynyddoedd yn ôl. Bu'n athro Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Glan Elai am gyfnod ac roedd yn arlunydd medrus iawn yn ogystal.

Oherwydd afiechyd ymddeolodd yn gynnar. Ymddiddorai'n fawr yn y "pethe". Bu ei ddwy ferch Siân a Bethan yn Ysgol Gymraeg Penarth ac wedi hynny yn Ysgol Uwchradd Llanhari. Cefnogai'n frwd Mudiad Ysgolion Meithrin a Chanolfan Iaith Nant Gwrtheyrn.

Cydymdeimlwn yn fawr â'i weddw Anne, a'r ddwy ferch Siân a Bethan yn eu colled fawr.

## ALWYN JONES

BRAINT AC anrhydedd oedd cael cydweithio gydag Alwyn ar wahanol lefelau dros ryw ugain mlynedd o'i yrfa. 'Doedd dim amlycach na'r ffaith bod ei artistiaid, ac yn enwedig y rhai ifainc, a'u dyfodol yn llawer iawn mwy pwysig iddo nag unrhyw ogoniant personol.

Cefais brofiad cynnar o'i agwedd broffesiynol tuag at ei holl waith pan fu iddo fy ngwahodd o bryd i'w gilydd - ymhlith eraill - i gyfeilio mewn rhaglenni "Ben Bore" o'r stiwdio ym Mangor. Myfyriwr, yn wir dechreuwr, oeddwn ar y pryd ond er hynny roedd ei safonau yn wydn, a'i sylwadau ar berfformiad yn gyfraniad gwerthfawr o glod neu feirniadaeth, fel bo'r galw, ond ynghyd a hiwmor hefyd.

Go brin y gallwn ragweld y pryd hynny y byddwn yn ymuno ag Alwyn fel cydymaith yn y Gorfforaeth, ac ymhen rhai blynyddoedd ei wasanaethu fel prif gynhyrchydd.

Di-ri'r meysydd hynny lle roedd ei gyfraniad ym myd y cerddorion a'r darlledwyr yn helaeth. Un o'r tasgiau cyson ar y ffin oedd y gwrandawiadau. Oriau hir yn y stiwdio ond ar y diwedd efallai un seren. Mae'r byd cerdd yng Nghymru heddiw yn frith o'r rhai a ddarganfuwyd drwy ei chwydd-wydr craff. Boed cantorion, offerynwyr, cyfansoddwyr neu arweinyddion, roedd Alwyn yn ddylanwadol yn eu gyrfaoedd - naill ai yn yr amlwg neu y tu ol i'r llenni. Cyrhaeddodd ambell un uchelfannau a phinaclau'r byd artistig.

A beth am ei raglenni? Yn ogystal â'r cyfresi hir-oes fel "Aelwyd y Gân", (yn ei hunan yn gamp o drefnu a chynllunio wythnosnol) roedd ei ddyddiadur yn llawn gweithgarwch o fore gwyn tan nos. Yn enwedig felly y grefft gymharol newydd o deledu a oedd erbyn hyn yn codi stêm.

Roedd Alwyn yn benderfynol y cawsai ei gelf ei le priodol ar y sgrin fach. Felly y bu geni "Croeso", "Y Gân Gymreig", ac yn fuan wedyn "Auditorium".

Darparodd raglenni hefyd ar gyfer y rhwydwaith Brydeinig, gan gynnwys y cyfanweithiau tymhorol rheiny yr oedd mor hoff o'u paratoi - Pergolesi "Stabat Mater", Vaughan Williams "Hodie", Honnegar "Cantawd y Nadolig", Bloch "Gwasanaeth Sanctaidd" a llaweroedd eraill o raglenni ar gyfer y Dioddefaint, y Pasg a'r Nadolig.

Ac yn olaf, fel oedd ei iawn haeddiant, dilynodd Arwel Hughes yn bennaeth yr adran - adran a gychwynwyd gan ei hoff gyfaill Idris Lewis, ac a ddatblygwyd yn gain gan Mansel Thomas, ac ar ei ôl ef, Arwel Hughes.

Er bod Alwyn Jones wedi gwerthfawrogi cydnabyddiaeth (fel pawb ohonom), nid oedd yn un a chwiliai am y golau llachar. Hoffai gydweithio mewn tim; fel cymwynaswr, roedd heb ei ail. Amhosibl crisialu ei holl rinweddau ond fe oedd yn ddiau yn ddyn bonheddig, yn llawn o deyrngarwch i'w deulu, at ei waith, ei gyfeillion, ac yn olaf, i'w hunan.

Arnold Lewis.

# LLYTHYRAU

106 Carisbrooke Way
Cyncoed

Annwyl Dinesydd,

Yn dilyn eich erthyglau diddorol yn rhifyn Mawrth am Gyfarwyddwr newydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r argyfwng yn yr Adran Gelf.

Bum i yn yr adran Sooleg rai misoedd yn ôl gyda dau o'm mhlant (sy'n chwech a saith mlwydd oed). Roedd gennym i gyd ddiddordeb mawr yn yr arddangosfeydd. O safbwynt addysgiadol, serch hynny, digalon iawn fu'r ymweliad. Roedd y nesaf peth i ddim o wybodaeth ar gael yn yr iaith Gymraeg (ag eithrio rhan fechan o'r oriel fawr uchel lle roedd hen gasus arddangos gydag arwyddion dwyieithog). Roedd y casus newydd i gyd yn Saesneg. Roedd popeth yn yr oriel ar y llawr cyntaf hefyd i gyd yn Saesneg.

Fel Cymry Cymraeg, ai dyma allwn ei ddisgwyl yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru?

Yr eiddoch yn bur,
David Jones.

---

48 Cranleigh Rise
Llanrhymni

Annwyl Dinesydd

Rwy'n anfon pum punt at gronfa'r Dinesydd.

Y mae prinder o gopiau i'w cael yn yr ardal yma. Dim ond un copi sy gan y llyfrgelloedd yn y Rhymni a Llanrhymni, ac wrth gwrs rhaid iddynt eu cadw ar gyfer y darllenwyr. Beth am ddosbarthu mwy o gopiau i'r llefydd yma ar gyfer pobl sydd am eu cadw?

Yr eiddoch yn gywir,
Graham H.Smith.

---

25 Plasturton Gardens
Pontcanna

Annwyl Dinesydd

Honnir yn rhifyn Chwefror (Rhif 122) mai "Cwlwm Pump", BARA CAWS, oedd y ddrama gyntaf - yn hytrach na sioe - i'r cwmni yma ei chyflwyno. Mae'r honiad yn anghywir. Perthyn yr anrhydedd i fy nrama gomisiwn i, "Chwara Plant", fu'n teithio Cymru ddiwedd 1983 a dechrau 1984. Cymerwyd rhan gan Stewart Jones, Beryl Williams, Elliw Haf ac Elfed Davis. Y cyfarwyddwr oedd Mei Jones.

Yn gywir
Michael Povey.

---

74 Hillview
Tyllgoed

Annwyl Dinesydd

Trafodwyd, yn eich golygyddol ym mis Mawrth, y sefyllfa wleidyddol yng Ngorllewin Caerdydd. Dwedwyd y byddai peidio a gosod ymgeisydd gan y Blaid yn gyfraniad gwell i gael gwared ar Stefan Terlezki na gwneud "safiad sumbolaidd". Mae pawb yn gwybod bod rhaid cael "two to tango" - ac hyd yn hyn mae un wedi gwrthod, y Blaid Lafur. Felly, ni fyddai'n "safiad sumbolaidd" i geisio darbwyllo pobl nad plaid wrth-Doriaidd ydy'r Blaid Lafur ond plaid hunanol.

Fel enghraifft o hyn, dylem nodi'r ffaith bod y Blaid Lafur yn Ne Morgannwg, yn cynnwys Cymry Cymraeg, wedi cefnogi cynlluniau'r Toriaid ar addysg Gymraeg - er mwyn ennill pleidleisiau ar draul yr iaith Gymraeg. Er mwyn cael ateb y Blaid ar hyn, ga'i dynnu sylw eich darllenwyr at gyfarfod ar "Addysg yng Nghaerdydd" yn Neuadd Goffa Llandaf ar Ebrill 23 am 7.30 gyda'r siaradwyr canlynol:

Helen Mary Jones, Y Cyngh. Christopher Franks, Cith ap Henri (Darpar ymgeisydd Seneddol yng Ngorllewin Caerdydd)

Yr eiddoch yn gywir
Peter Keelan (Ysg.P.C. De Morgannwg)

## CYMDEITHAS GYMRAEG DINAS POWYS

DAETH NIFER luosog o aelodau'r Gymdeithas ynghyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 3 Mawrth yng nghlwb B.P. y Sili. Ein gwesteion eleni oedd John Jones a'i wraig o Gasnewydd - roedd yn bleser gwrando ar ei araith ddifyr.

Braf hefyd oedd clywed am y paratoadau eisteddfodol sydd yn byrlymu ar hyn o bryd yn y dref a'r Cymry Cymraeg a di-Gymraeg i gyd yn barod i dorchi llewys er mwyn sicrhau llwyddiant i'r Ŵyl.

Cadeirydd y noson oedd Dylan John. Mae e' a'i wraig Mair wedi llywio holl weithgareddau'r Gymdeithas eleni mewn ffordd hyfryd iawn. Fe'n diddanwyd gan driawd arbennig y Gymdeithas sef Janet Davies, Elinor Elias Jones a Gill Lloyd. Ein trysorydd, Alun Roberts a sicrhaodd fel arfer fod yr ochr ariannol yn dwt a thaclus - diolch iddo am ei waith cyson. Eifion Hopwood, ein llywydd, a gyflwynodd y diolchiadau ar ddiwedd y noson.

Roedd yn braf cael cwmni Griff ac Ann Thomas. Yn sicr ein dymuniad yw i Ann gael nerth a phob bendith yn ei brwydr yn erbyn yr afiechyd blin sydd wedi'i goddiweddyd. Mae Ann bob amser yn llawen ac yn gwerthfawrogi cymorth ei theulu a'i ffrindiau. Byddwn i gyd yn meddwl amdani ac yn gweddio drosti yn ystod y cyfnod o driniaeth lem sydd o'i blaen.

Pleser i ni fel cymdeithas, ac i'w rhieni Ceri ac Audrey Jones, yw gweld Catrin yn gwneud marc fel cyfeilyddes i Gôr Cerdd Dant y Ddinas. Pob hwyl i ti yn y dyfodol Catrin.

Mae plant bach y cylch meithrin yn llawn hwyl fel arfer. Gwelwyd nifer ohonynt yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig ar dudalennau'r "Western Mail" ar Ddydd Gŵyl Dewi. Mae'r Adran yn weithgar dros ben bob amser a'r plant bach a'u rhieni ac wrth gwrs eu hathrawesau dan arweiniad Moyra Owen yn brysur byth a beunydd. Cafwyd bore coffi a ffair sborion lwyddiannus yn ddiweddar. Peidiwch anghofio am y Noson o Gaws a Gwin ar Ebrill 19 yng nghmwni Caryl Parry Jones a'i ffrindiau. Dewch yn llu - cefnogwch ein Cylch Meithrin ni!

Cafwyd noson fendithiol ym Methel Penarth nos Sul 2 Mawrth dan arweiniad y Parch. Meurwyn Williams. Cyflwynwyd pump o aelodau'r capel yn Flaenoriaid am y tro cyntaf a phedwar ohonynt yn aelodau o'n Cymdeithas Gymraeg ni yma yn Ninas Powis. Pob bendith yng ngwaith yr Eglwys i Iris Cobbe a Gill Lloyd ac i Rowland Owen a Ceri Jones. Dymunwn yn dda hefyd i'r Dr. John Thomas y blaenor arall, mae e'n aelod tra ffyddlon ym Methel ac yng nghymdeithas Gymraeg Penarth.

"Bywha dy waith o fewn dy dŷ
A gwna dy weision oll yn hy:
Gwisg hwynt â nerth yr Ysbryd Glan
A'th air o'u mewn fo megis tan".

# Arbrawf theatrig

NOS SUL 2 Mawrth, yng Nghlwb Ifor Bach, cynhaliwyd darlleniad o ddrama newydd gan Bernard Evans, sef "Yr Etifeddiaeth".

Gwnaed yr arbrawf yn bosibl trwy gymorth Cyngor y Celfyddydau a gobeithir i hwn fod y cyntaf o nifer o ddarlleniadau tebyg i ysgogi dramodwyr a chyfarwyddwyr ifainc i ymarfer eu dawn mewn sefyllfa anffurfiol. A barnu wrth y darlleniad cyntaf hwn, bydd yr arbrawf yn sicr o fod yn llwyddiannus.

Olrhain perthynas tad a mab a wna'r awdur, ac er mai darllen eu rhannau a wnai'r actorion, yn ôl y bwriad, ni ellid llai na theimlo eu bod wedi mynd i mewn yn drylwyr i ysbryd y ddrama ac hefyd o dan groen y cymeriadau.

Dewis doeth oedd y ddrama a ddewiswyd o dan gyfarwyddyd Huw Ceredig, gan ei bod yn cynnig posibiliadau cyffrous o safbwynt cynhyrchu. Ond er mor ddiddorol oedd y ddrama, hyd yn oed o glywed ei darllen yn unig, gyda'r ddeialog a lifai mor esmwyth a'r cymeriadau a oedd yn argyhoeddi, ni ellid peidio â dychmygu sut y byddai pe ceid adnoddau clyweled at wasanaeth cynhyrchydd. Dangosodd yr actorion dan gyfarwyddo medrus a dealltwriaeth Huw Ceredig bosibiliadau'r ddrama ac mi fyddai'n braf o beth gweld cyflwyniad llwyfan ganddo yntau a'r actorion.

Cafwyd trafodaeth ar ddiwedd y darlleniad a da o beth oedd clywed actorion, yn ogystal ag aelodau eraill o'r gynulleidfa yn mynegi barn ddealus. Llongyfarchiadau i Christine Pritchard a Dafydd Hywel a chwmni "Whare Teg" am ymgymryd â'r gwaith gwerthfawr hwn o symbylu nid yn unig awduron cydnabyddedig ond hefyd awduron a chynhyrchwyr ifainc i gynnig eu gwasanaeth er budd y ddrama yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd llawer iawn o ddarlleniadau tebyg i hwn, nid yn unig yn y Brifddinas, ond hefyd mewn mannau eraill led-led Cymru.

Ray Evans.

# BIENVENUS

Noson Dydd Gŵyl Dewi yng Ngwesty Sloanes

GÊM ryngwladol - Cymru V Ffrainc yng Nghaerdydd - dathlu dydd Gŵyl Dewi hefyd - am gyfle bendigedig i drefnu noson.

Y penderfyniad yn un hawdd, trefnu noson Gymreig (modern) gyda Huw Chiswell, Tan Tro Nesa a disgo Aled Wyn. Cyfle anhygoel i bontio'r cyfeillgarwch rhwng y Cymry a'r Ffrancod! Fe aeth y trefnu'n iawn, ond y cysgu a'r poeni cyn y noson ddim cystal.

8.30 y dryse'n agor - pob dim yn barod. Llond y lle o Gymry a Ffrancwyr yn cymysgu blith drafflith drwy ei gilydd. Fuon ni'n lwcus iawn i gael band o Ffrainc i chware. Pawb yn joio a ca'l lot o sbort. Huw Chiswell yn chware gynta ac yn ca'l ymateb da. Cyfle i wrando ar Tan Tro Nesa, nhw'n ca'l yr un ymateb.

Tra ro'dd yr holl bethe 'ma mynd 'mla'n ro'n i wrth y drws yn gwneud yn siwr bod y bobl iawn yn dod miwn. Wel, dath y boi ma miwn 'on ro'n i wedi ei weld o'r bla'n - aelod o dîm Cymry! Cerddodd e miwn a dyma fi lan ato a gofyn yn fy Saesneg gore "Os tocyn 'da chi?" "Na" medde fe. "Wel yn anffodus allai ddim eich gadael chi miwn", medde fi. "You do realise who I am?", medde fe'r cefnwr pengoch. "Ydw, dwy'n gwbod pwy i chi, ond ar ôl eich perfformiad y p'nawn 'ma sai'n meddwl y gallai'ch gadel chi miwn!" Am eofn. Lwc i fi, ro'dd y "bouncer" go iawn y tu ol i fi, ac er gwaetha' popeth fe gath y boi bach fynd miwn. (Cofiwch mas a'th e go gloi wedyn.)

Er hynny cafwyd noson arbennig o dda. Gwnaethpwyd elw sylweddol a fydd yn mynd at elusen o'n dewis ni. 'Falle y byddwn yn trefnu noson arall, rhywbryd 'to yn y dyfodol.

Diolch i bawb a gefnogodd ni yn y fenter hon.

Elin Young.

# Colofn Shân Emlyn



FYDDWCH CHI weithiau yn cael rhyw don o gywilydd y dyla chi fod wedi gwneud rhywbeth, ymweld â rhywun, neu gyflawni tasg yr oedda chi wedi bwriadu 'i gwneud? Mae arnai ofn fy mod i'n cael y teimlad hwnnw o bryd i'w gilydd. Pam 'ta, medda chi, nad yw dyn yn dysgu'i wers, ac yn ymroi i fod yn fwy teyrngar i bobol a mudiadau? 'D'allai ddim ateb dros neb ond y fi fy hun - a tydy ateb drostai'n hun ddim yn hawdd, nac yn bleserus. Cymysgwch mae'n debyg, o ddifrawder a diogi - yn fy achosi i - diogi yn benna'.

Mor gyfarwydd ydy'r brawddegau "mae bywyd yn hectic", "Toes dim posib 'i dal hi 'nhob man", "Mae gen i ddigon ar 'y mhlat" ac ati. Ar un olwg, mae'r brawddegau yna i gyd yn ddilys - ond mae 'na frawddegau eraill - "Os ydy rhywun ddigon o isio gwneud rhywbeth, mi ffendith amser", neu, "Os am gymwynas, gofynwch i'r prysura yn eich mysg".

Pam y teimladau yma'r mis yma? Mi fum i'n cael gwersi canu gan wraig hynod am flynyddoedd. Gwraig o Hwngari oedd hi, a oedd ar drothwy gyrfa ddisglair fel cantores pan fu raid iddi gael llawdriniaeth ar ei thyroid. Digwyddodd rhywbeth, ac fe gollodd ei llais. Dyna ichi loes. Dyfnhaodd ei llais i fod fel llais dyn, bu raid iddi ganu ffarwel i'w gyrfa a throi at ddysgu.

Cyd-ddigwyddodd hyn a thoriad yr Ail Ryfel Byd, a bu raid iddi ffoi o'i gwlad. Sut, ni wn, ond ymgartrefodd gyda'i phriod yn Nhrealaw, o bob man. Byddaf bob amser yn dotio at ei chyfeiriad - Brithwennydd Road, Trealaw - nid yw'n enw disgrifiadol o'r stryd fel ag y mae heddiw. Mae'r dychymyg yn mynd yn drech wrth feddwl sut a pha bryd y cafodd y llecyn y fath enw.

Doedd hi ddim yn ddynes hawdd gwneud â hi, ond eto tyfodd perthynas glos iawn rhyngom. Doedd hi ddim yn hawdd oherwydd 'i phersonoliaeth, ond ar ben hyn roedd ei Saesneg yn fratiog iawn. Cai anhawster i ddeall ei disgyblion yn siarad - yr un oedd ein problem ninnau. Teimlai bod dolen gydiol rhyngddi hi a'r Cymry, gan bod gan y Celtiaid le yn hanes Hwngari. Deallai ein balchder yn yr iaith - a thrwydda' i fe gafodd ddogn go helaeth o alawon gwerin Cymru. Cofiaf, adeg helyntion yr Arwisgo iddi ddweud wrthyf nad oedd yn deall protestiadau Cymdeithas yr Iaith - anghofia'i byth 'i sylw "For every Russian soldier on our streets we would love a Prince Charles". Hyn, cofiwch chi, yn cael 'i ddweud efo acen Hwngaraidd drom.

Carwn allu cyfleu i chi ei hacen - ond tasg amhosib. Byddai'n ffonio acw bob yn hyn a hyn. Un tro atebodd Owen a chlywed "Cfwd I sfic to Shân", ac meddai Owen, "Good Evening, Madame Hilgar", a'r ateb "Mfr Edfards, you afe so clever,- you fecognise my voice"!!

Dysgais am ganu ganddi, ond dysgais fwy am fyw - am werthfawrogi harddwch llinell o farddoniaeth, rhediad a gwead alaw, a'r ddisgyblaeth lem a ddisgwyliai gan unrhyw un a ddysgai ganu. Erbyn i mi fynd ati, roeddwn yn fam i ddwy - cynnal fy niddordeb mewn canu oedd diben mynd ati. Bron na welai fai arnai am gael plant! Eto, dilynai ei hynt a'u helynt hwy a mawr gariad. Gorfododd Elin i gael gwersi canu am gyfnod byr - gan y credai bod yn rhaid i ffidlwr allu anadlu fel canwr o gael y gorau allan o frawddeg gerddorol ar y ffidil - hynny yw - canu alaw fel llais ar y ffidil. Roedd 'na sylwedd mawr yn ei hathroniaeth. Anghofiai byth mohoni.

Anghofiai byth, medda fi, ond llwyddais i'w hesgeuluso yn ei blynyddoedd ola'. Ymddeolodd rhyw chwe mlynedd yn ôl, ac am bump o'r rheiny, bum yn cysylltu â hi. Ond fe gollodd ei chof, ac aeth yn anoddach nag arfer i'w thrin. Cyhuddai fi o ffonio ar adegau anghyfleus, neu o beidio â'i ffonio. Os awn yno meddyliai fy mod am wers ganu - a mynnai geisio ei rhoi i mi - er erbyn hyn ei bod y tu hwnt i allu gwneud hynny, a f'awydd innau am wers wedi llwyr ddiflannu. Dros flwyddyn yn ôl penderfynais nad oedd diben mynd i'w gweld a'i chynhyrfu, dim ond anfon cerdyn ati o ble bynnag awn. Dyna lle mae'r euogrwydd yn fy nharo.

Gorffennodd ei dyddiau fis diwetha mewn cartref hen bobol. Yn yr angladd yng Nghlyn Taf roedd dyrnaid o gynddisgyblion a staff Coleg Cerdd a Drama a'i chymdogion. Dim un enaid byw o Hwngari, roedd hi wedi goroesi'i gŵr a'i chyfoedion. Sôn am "draw mae ngenedigol wlad". Y teimlad ges i yn y gwasanaeth byr oedd "Beia neu beidio, anodd neu beidio, biti na fuaswn i wedi mynd i'w gweld, pe ond i afael yn 'i llaw". Ond yda ni'n colli cyfle, dro ar ôl tro?

# HAI DI HAI

YS GWN I faint o ddinasyddion sy'n penderfynu o dro i dro i droi cefn ar fywyd y dref am egwyl fach a mynd i dreulio penwythnos yn y wlad i adfywio corff ac ysbryd? A faint ohonom sy'n addo i'n hunain yr awn i ymweld a'r lle hwn neu'r llall "un diwrnod"? Serch hynny, onid yw'n hawdd i beidio â gwneud y fath bethau - ffeindio cant a mil o bethau eraill bob-dydd i wneud dros y penwythnos neu bod ond yn rhy falch bod nos Wener wedi cyrraedd o'r diwedd gyda'r rhagolwg o ddau ddiwrnod o orffwys.

Pan ddychwelais i Gaerdydd i ddechrau swydd a fyddai'n cynnwys oriau nosweithiol, penderfynais o'r dechrau i wneud y mwyaf o'm penwythnosau. Roedd chwant arnaf hefyd i archwilio dipyn fy ngwlad genedigol - roeddwn newydd ddychwelyd o fyw yn y Dwyrain Pell am ddwy flynedd a sylweddolais, er cywilydd, nad oeddwn hyd yn oed wedi bod yn adeilad Castell Caerdydd.

Yn cofio bod cymydog o'r gorffennol wedi sôn am y grŵp, es i un nos Fawrth i gyfarfod wythnosol o Gangen Caerdydd y Gymdeithas Hostelau Ieuenctid (Youth Hostelling Association) - wedi darganfod nad oeddwn yn rhy hen i ymuno yn 26 mlwydd oed! Cofiaf hyd heddiw y noswaith ardderchog honno pan ddangosodd y gwestai (dyn o'r enw Dave Parsons sy'n perchen siop "Outdoor Action" yn Wyverne Road) sleids gwylch o'i ymgyrch e a saith person arall i ddringo mynyddoedd yr Himalayas yr haf gynt. Dyna ddechrau ar gyfnod newydd yn fy mywyd yn fy nhyb i... Na, dwi ddim wedi dringo Everest eto, ond rwy wedi ymweld â dwsinau o lefydd eraill am y tro cyntaf trwy fod yn aelod o'r gymdeithas ddiddorol a defnyddiol hon.

Mae tua deugain o aelodau yng Nghangen Caerdydd y "Y.H.A." (newidiwyd yr enw i "The Outdoor Company" tua blwyddynyn ôl i geisio apelio at y rhai a fyddai efallai yn gwrthod y gair "youth" yn yr enw gwreiddiol) ac mae cyfarfod pob nos Fawrth yn y Y.M.C.A., East Grove, pryd ceir amryw o ddigwyddiadau fel siaradwyr gwadd (sy fel arfer yn sôn am faterion yn ymwneud â byd natur neu'r amgylchedd), sioeau sleids, ambell i ffilm neu drefniad gan un o aelodau'r grwp o gwis, "charades" neu ryw adloniant ysgafn efallai am newid. Mae'r noson yn gorffen bob amser (i'r rhai sy'n dymuno) drwy ymddiddan dros beint mewn tafarn lleol.

Paratoir y rhaglen am bedwar mis ar y tro felly mae cyfle i'r rhai sy ddim eisiau neu ddim yn gallu mynd pob wythnos i ddewis ymlaen llaw y nosweithiau sy'n apelio atynt fwyaf. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys digwyddiadau allanol am y pedwar mis yn cynnwys penwythnosau i ffwrdd (yn aros mewn hostelau ieuenctid am bris resymol). Awn yn aml i gerdded a dringo mynyddoedd ac mae Eryri, Ardal y Llynoedd, a Swydd Efrog yn boblogaidd am benwythnosau hir, ond rydym hefyd yn hoff o fynd i Fannau Brycheiniog, Ystradfellte a'r Mynyddoedd Du sy'n agosach. Mae penwythnosau "diwylliedig" o bryd i'w gilydd - er enghraifft, Stratford-on-Avon neu Gaerfaddon (a does dim rhaid bod yn ddiwylliedig yn y llefydd hyn!) neu unrhyw le arall sy'n apelio at yr aelodaeth. Mae'r pwyllgor bob amser yn gofyn am awgrymiadau cyn llunio'r rhaglen.

Trefnir gwibdeithiau un-dydd sy'n boblogaidd iawn ac mae nifer o lefydd cyfagos lle ceir Rhodfeydd Coedwig - er enghraifft, ar y bryniau y tu ôl i Lantrisant, neu Wentwood ger Casnewydd. Awn hefyd i hwylio ar y Waverley yn yr haf i Minehead neu Ynys Lundy; i fyny i Bontypŵl i gael tro ar Lethr Ski Sych, neu ar gefn beic o amgylch Bro Morgannwg. Yn wir, mae fy oriau hamdden ers bod yn aelod o'r Y.H.A. wedi bod yn rai llawn, diddorol a hapus iawn - a pheidiwch â meddwl bod gormod o bwyslais ar bethau egniol, mae rhai pobl yn ddigon hapus i fod yn aelodau cymdeithasol yn unig!



Os oes gan unrhyw un sy'n darllen yr erthygl hon ddiddordeb mewn ymuno â ni, bydd croeso cynnes i chi ar nos Fawrth am 8.00 yn adeilad y Y.M.C.A. (sydd y tu ôl i hen adeilad Bryntaf yn Y Parêd, neu ffoniwch ein Cadeirydd, Rob Mundy (Cymro Cymraeg) am sgwrs anffurfiol ar Gaerdydd 693296.

Eluned Rook.

O.N. Does neb yn rhy hen i fod yn aelod!

GOLYGYDD:
Llongyfarchiadau i'r Parchedig Elfion Powell ar gael ei bennodi'n olygydd y cylchgrawrn cydenwadol dau-fisol "Cristion". Mi fydd yn olynu Enid Morgan, Aberystwyth, a fu wrth y llyw ers cyhoeddi'r rhifyn cyntaf ym mis Tachwedd 1983.

# GWESTY CYMRU

YN FUAN wedi cyhoeddi fod Holiday Inn yn bwriadu adeiladu gwesty newydd yng Nghaerdydd, fe holais un o yrwyr tacsi cwmni Metro ynglyn a'r datganiad. Ysgogodd hyn iddo rwgnach am ddiffyg cwsmeriaid ond mentrodd farnu y byddai'r gwesty yn sicr o gynyddu ei enillion, ond mai rhywbeth i wŷr busnes goludog fyddai'r datblygiad newydd.



Ar y llaw arall mi fyddwn i yn barod i ddadlau y cawn weld effeithiau eang, yn dwyn budd i'r gymuned gyfan o agor y gwesty eleni. Paham, meddech chi, fy mod yn disgwyl cymaint o ddatblygu un gwesty?

Yn gyntaf, rhaid cofio y bydd yn rhan o gadwyn sylweddol yn Ewrop a gogledd America. Gall hyn roi Caerdydd, ac efallai Cymru, ar fap Holiday Inn. Bydd eu marchnata yn cynnwys son am Gaerdydd, a bydd rhai ohonoch yn gwybod, o brofiad, pwysigrwydd cael taflenni am ein Prifddinas yng nghyntedd Holiday Inn Brwsel a Berlin yn ogystal a Heathrow. Ychydig o ddychymyg sydd ei angen i sylweddoli y bydd rhan o'r busnes newydd yn mynd i westai eraill yn y ddinas a thu hwnt.

Fe all dyfodiad y Gwesty effeithio ar y defnydd o westai Caerdydd mewn ffyrdd eraill. Enghraifft yn unig ydy'r effaith ar safonau. Tybed os mai cyd-ddigwyddiad oedd adeiladu pwll hamdden yng Ngwesty'r Inn on the Avenue, ail-addurno mewnol yng ngwestai'r Royal neu'r Angel, neu ymestyn y cyfleusterau cynadledda a lloftydd yn y Parc? Yn sicr, ni allwch anwybyddu 135 o lofftydd newydd a'r rhai hynny o fewn gwesty sy'n anelu at raddau uchaf pedair seren. Bydd yn anodd i'r Bwrdd Croeso wneud cymhariaethau uniongyrchol - gan ein bod ar fin newid cynllun safonau, i gael unffurfiaeth o fewn Prydain - ond does gen i fawr o amheuaeth fod perchnogion a rheolwyr gwestai Caerdydd wedi meddwl llawer mwy am fuddsoddi mewn safonau, ers cyhoeddi dyfodiad yr Holiday Inn.

Mae buddsoddiadau diweddar, yn fynych gyda chymorth ariannol oddi wrth y Bwrdd Croeso, wedi gweithio i wella cyfleusterau bwyta ac ystafelloedd cyfarfod. Mae'r hwb yma i'r economi lleol wedi bod o fudd i'r diwydiant gwasanaethau ac yn fodd i greu swyddi parhaol. Soniais am fusnes yn deillio i ardaloedd cyfagos. Fe wyddom eisoes fod cyfarfodydd a chynadleddau wedi eu denu i'r Brifddinas gan y gwesty newydd. Darganfod dinas newydd fu hanes amryw ohonom wrth fynychu cynadleddau. Fe rydd hyn ragflas i'r sawl a ddaw yma am y tro cyntaf ac yn aml fe drefnir teithiau i bartneriaid yn ystod cynhadledd sydd o fudd i atyniadau a siopau ymhell ac agos.

Gwesty newydd yn Mill Lane neu effaith syfrdanol ar westai ac economi Caerdydd? Credaf mai'r ail honiad sydd agosaf at y wir.

Gwyn Angell Jones
Rheolwr Rhanbarthol De Cymru
Bwrdd Croeso Cymru

# GŴYL LLANDAF

FEL Y DYWED yr hen air "yn sydyn daw dydd Sadwrn" dyma achub ar y cyfle dipyn ymlaenllaw i sôn gair am Ŵyl Llandaf ar ei newydd wedd eleni. Pam newydd wedd felly? Un rheswm digonol yw mai ei chyfarwyddwr artistig newydd yw'r Dr. George Guest o Goleg Sant Ioan, Caergrawnt. Erbyn hyn mae e'n enw ac yn wyneb cyfarwydd i lawer iawn ohonom ni'r Cymry sy'n mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol lle mae'n cael ei gydnabod fel un o'r prif feirniaid cerdd. Ef, hefyd, yw cyfarwyddwr Côr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a ymddangosodd am y tro cyntaf ar lwyfan Eisteddfod y Rhyl y llynedd. Ym myd cerdd yn gyffredinol ac yn arbennig ym meysydd yr organ a cherddoriaeth eglwysig mae ganddo le anrhydeddus iawn ac fe allwn ni yng Nghymru ymfalchio yn y ffaith ei fod gystal Cymro a'i ddiddoredeb yn "y pethe" mor fyw ac effro.

Mae rhaglen y Dr. Guest ar gyfer Gŵyl eleni'n adlewyrchu'r agweddau y soniwyd amdanynt, fel y cawn weld, a dyma ragflas o'r arlwy fydd ger ein bron dan heulwen Mehefin. Gan fod ein cylch ni, bellach, yn gyforiog o wyliau a gweithgarwch cerddorol fe fydd Gwyl Llandaf yn ceisio cynnig darpariaeth nas ceir gan eraill. Un nodwedd arbennig yw ei gosod yn dwt yn yr Eglwys Gadeiriol ac yng nghysgod y Gadeirlan. Ond serch hynny cynhelir nifer o'r perfformiadau mewn mannau eraill gan gynnwys eglwys Dewi Sant ac Eglwys Sant Ioan.

Bydd arwyddion clir o hwyl yr Ŵyl i'w gweld ar bob llaw wrth i'r misoedd nesaf ein harwain at yr Ŵyl ei hun ganol Mehefin. Gwyliwch am fanylion pellach a hwyrach y daw cyfle i roi pwt arall yn y Dinesydd fel bydd y paratoadau'n cyrraedd penllanw.

Wynne Lloyd.

# 'Be my Guest'

DYLAI POB Gŵyl i raddau adlewyrchu bywyd a diwylliant yr ardal y mae'n cael ei chynnal ynddi; ond, yn fwy fyth, mi ddylai adlewyrchu ei nodweddion cenedlaethol ei hun. Felly, bydd Gŵyl Llandaf eleni yn anelu at gyfuno'r lleol, y cenedlaethol. a'r rhyngwladol.

Bydd tri chyngerdd cerddorfaol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf - gan Gerddorfa Sumffoni Gymreig y BBC (gan gynnwys Consierto i'r Cello gan Saen Saens); gan Gymdeithas Gorawl Llandaf a Cherddorfa'r Ŵyl a gan Academi St.Martins-in-the-Fields, sy'n cael ei ystyried yn un o'r cerddorfeydd siambr gorau ar gael heddiw.

Hefyd mae cyngherddau gan enwogion byd-enwog fel Osian Ellis (telyn), David Wilson -Johnson (a fydd yn canu'r "Winterreise" gan Schubert) a Howard Shelley (piano). Bydd Pedwarawd Alberni, a ddisgrifir gan y New York Times fel "un o hanner dwsin gorau bedwarawdau'r byd" yn rhoi cyngerdd, ac hefyd bydd yn cynnal datganiad arbennig ar gyfer plant ysgolion Llandaf.

Ond nid yw cerddoriaeth gorawl yn cael ei anghofio ychwaith ac, ar wahan i Gymdeithas Gorawl Eglwys Gadeiriol Llandaf, bydd cyngherddau gan Gôr yr Eglwys Gadeiriol ynghyd a Chantorion Ardwyn, ac mae'r grwp enwog a phoblogaidd Ar Log, sy'n hybu cerddoriaeth Cymru trwy ddefnyddio offerynnau traddodiadol, yn rhoi cyngerdd sy'n addo bod yn ddeniadol, yn hudolus ac anarferol yn Neuadd Ysgol Howell.

Oherwydd ei bod hi'n Ŵyl i'r Esgobaeth, yn ogystal a'r Ddinas, bydd datganiadau ar yr organ Father Willis yn Eglwys Dewi Sant yng nghanol Caerdydd awr ginio gan Roy Massey (Eglwys Gadeiriol Henffordd), Stephen Cleobury (Coleg y Brenin, Caergrawnt) a Christopher Robinson (Capel Sant Sior, Windsor). Hefyd bydd anerchiadau (rhai yn Gymraeg, rhai yn Saesneg) gan siaradwyr enwog yn Eglwys Sant Ioan, ac edrychwn ymlaen at ymweliadau Dr. Meredydd Evans a Gwyn Erfyl (yn Gymraeg), a Dai Smith a'r Athro Gwyn A. Williams (yn Saesneg).

Byddai'n amhosibl cael Gŵyl lwyddiannus heb ewyllys da a help ymarferol a pharod oddi wrth cynnifer o bobl, a charwn yn arbennig ddiolch i'r Gwir Barchedig y Deon a'i weithwyr, Prifathrawes Ysgol Howell a'i gweithwyr, Prifathro Ysgol yr Eglwys Gadeiriol, Cyngor Celfyddydau Cymru (yn enwedig Roy Bohana), Gweinyddwr yr Ŵyl, Miss Jill Shuker, a phawb sy wedi cyfrannu mor haelionus tuag at gyllid yr Ŵyl.

Gaf i estyn croeso cynnes i bawb i Ŵyl Llandaf 1986, a gobeithiaf y byddwch yn mwynhau cwmni da, sgyrsiau bywiog, cymdeithas, a gwledd o gerddoriaeth a'r gair llafar.

George Guest
Cyfarwyddwr Artistig.

---

Gan fod yna fwy o Gymreictod yn perthyn i Ŵyl Llandaf eleni, priodol fyddai sicrhau cefnogaeth deilwng i rannau Cymraeg yr Ŵyl. Wele isod rhai dyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron:

Mehefin 18
Eglwys Sant Ioan, Yr Ais 1.10
Dr.Meredydd Evans:
"Ieuan Ddu: Cerddor a Phrydydd".

Mehefin 20
Neuadd Ysgol Howells 7.30
Cyngerdd gan Ar Log

Mehefin 23
Eglwys Sant Ioan, Yr Ais
Gwyn Erfyl:
"Ambell Awr".


---

MERCHED Y WAWR

DAETH NIFER dda ynghyd i gyfarfod mis Mawrth o Ferched y Wawr. Paratowyd rhaglen deyrnged i Kate Roberts a oedd yn aelod o Ferched y Wawr gan Kathleen Wood. Dehonglwyd ei chymhellion i ysgrifennu a darllenwyd rhannau o waith Kate Roberts gan aelodau o'r gangen.

Y mis nesa mae'r Cymrodorion wedi gwahodd aelodau Merched y Wawr i ymuno a hwy ar nos Wener 11 Ebrill yn festri capel Minny Street. Yn y cyfarfod hwnnw bydd ail gyfle i fwynhau y rhaglen nodwedd arbennig yma ar Kate Roberts.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367

# MAE'R COF AM GYMRO CYFAN



Cyfeillion Carwyn o Rovigo wrth y cerflun ohono, o waith Robert Thomas, yng nghyntedd y BBC a ddadorchuddiwyd gan ei chwaer Gwen ar ddydd Gŵyl Dewi.

YCHYDIG a feddyliai Carwyn y byddai cerflun pen ohono'n harddu cyntedd y BBC yn Llandaf. Llai fyth y byddai'r Prifardd Dic wedi llunio englyn coffa iddo a bod y llinell olaf i'w gweld bellach ar fon y cerflun. Ond dyna fel y mae pethau wedi'r dadorchuddio gan Gwen, ei chwaer, ar ddydd Gŵyl Dewi eleni. Byddai Carwyn wedi encilio, mae'n siwr, rhag y llu a ddaeth i'w anrhydeddu ond mi fyddai wedi bod wrth ei fodd mai ar wyl ei nawddsant y cynhaliwyd y seremoni.

Ychydig, hefyd, a feddyliai Carwyn wrth iddo gerdded strydoedd Rovigo, yn ystod ei ddwy flynedd o alltudiaeth, y deuai carfan deg o'i gyfeillion Eidalaidd i osod torch o flodau'n deyrnged yng nghysgod ei gerflyn. Ond dyna a ddigwyddodd. Daethant yn gryno i Gaerdydd ar wahoddiad Cyfeillion yr Amgueddfa Genedlaethol. Arweinydd y grwp oedd Giancarlo Chechinato, a fu'n gefn i Carwyn, ac yn aelod o'r tim a gariodd enw Rovigo i entrychion byd rygbi'r Eidal ac i goridorau'r Fatican i dderbyn clod y Pab. Pan ddisgynnodd y criw ar y BBC yn Llandaf animeiddiwyd y cyntedd gan eu clonc a'u cleber ond pan welsant y cerflun bu tawelwch mawr. Roedd y berthynas wedi'i chryfhau a'i chadarnhau ar amrantiad, a phefriai llygaid yr ymwelwyr wrth weld, unwaith eto, wyneb meddal a mwyn yr arwr o hyfforddwr.

Eto'i gyd gwyddai Giancarlo a'i gyfeillion gystal â neb nad gŵr y bêl hirgron yn unig oedd Carwyn. Ym mis bach dair blynedd yn ôl, fis wedi marw Carwyn, roeddwn i ar daith yng Ngogledd yr Eidal. Penderfynais fynd i Rovigo ac fe'm cefais fy hun mewn tref dan gwmwl. Roedd hi'n fore Sul glawog a diflas. Doedd yr un copa gwalltog i'w weld ar hyd strydoedd y dref. Cefais loches mewn bar a phan eglurais fy mod i'n Gymro ac yn gyfarwydd a Charwyn agorodd llifddorau'r croeso. Cyn pen dim cafwyd hyd i enw Angelo Morello yn y llyfr ffôn. Ymhen deng munud dyma fi yn ei gartref, cartref y bu Carwyn ynddo'n gyson. Nid dyn rygbi mo Angelo ond athro iaith a dyna'r gadwyn gryfaf yn ei gyfeillgarwch a Charwyn. Cefais olwg sydyn ar fflat Carwyn ac wedyn draw â fi i faes a chlwb Rygbi Rovigo. Syfrdanwyd y lle gan farw Carwyn ac ar y Sul cyntaf wedi clywed y newyddion gwisgodd y chwaraewyr rubanau duon a llethwyd y maes rygbi am ddwy funud gan ddistawrwydd llwyr - cryn gamp yn yr Eidal barablus. Roedd yr ardal dan gwmwl.

Yn y clwb ei hun cefais gyfle i weld llun cwbl annisgwyl o gofio am y tlysau a'r lluniau sydd i'w gweld fel arfer mewn clwb rygbi. Dyma'r unig fan i mi weld y llun arbennig hwn ac mae wedi dal, i'r dim, ogoniant Carwyn. Un o drysorau Oriel Luniau Concordia yn Rovigo yw darlun o'r Forwyn Fair gan Bellini. Ai Carwyn yn aml i'r oriel hyfryd hon yn y Piazza del Commune fel y byddai'n encilio i orielau tebyg yn Fenis a Bologna. Roedd y dianc hwn "o swn y boen sy' yn y byd" yn gymaint o ddirgelwch i'w gyfeillion rygbi yn Rovigo ag y bu i'r frawdoliaeth rygbi yng Nghymru a'r byd. Nid pob hyfforddwr rygbi sy'n ŵr o ddiwylliant ym myd y celfyddydau. Mae'r llun hwn o Carwyn yn sefyll yng nghysgod y Bellini'n ddameg ac yn arbennig felly o ystyried mai mewn clwb rygbi y gellir ei weld.

Diolch i Carwyn gwyr pobl Rovigo'n dda am Gymru nid yn unig fel gwlad rygbi ond fel cenedl ag iddi ei hiaith, ei thraddodiadau a'i llenyddiaeth ac yn ystod wythnos yr ymweliad cawsant gyfle i brofi o'r "hen win" a'r "gwaed ifanc". Bydd y cerflyn o waith Robert Thomas yn simbol i'r Eidalwyr o'r cwlwm a wnaed gan Carwyn ac a dynhawyd dros wythnos ein nawddsant, cwlwm nad oes, bellach, ddatod arno.

Wynne Lloyd.

# 'STEDDFOD

"WELA I, dim ond 'dummy run' ydy hwn erbyn Cwm Rhymni!" Chwarddodd Emyr Jenkins, Trefnydd yr Eisteddfod Genedlaethol, wrth glywed Dafydd Islwyn yn protestio fod Is-bwyllgor llenyddiaeth Steddfod Casnewydd yn "dwyn" testunau posib Cwm Rhymni. "Gadwch rywbeth i Gwm Rhymni bois!"

Prin y bydd y pwyllgora bywiog wedi dod i ben yng Nghasnewydd pan fydd hi'n bryd bwrw iddi i groesawu'r Ŵyl fawr i Lannau Elyrch. Mae yma lawer sy'n para i sôn am yr hwyl a gafwyd pan ddaeth y Genedlaethol i Gaerffili, ac erbyn 1990 fydd 'na ddeugain mlynedd ers hynny. Yn ystod y cyfnod hwnnw gwelwyd dirywiad diwydiannau hen a newydd: dirywiad sydd wedi gadael ei ôl. Mae tlodi yn ffordd o fyw i lawer o drigolion y cwm heddiw. Ond mae yma gyfoeth o fath arall, a chynnydd hefyd. Gwelwyd twf aruthrol addysg Gymraeg ers y pumdegau, ac yn sgil y frwydr i sefydlu a chynnal yr ysgolion daeth y Cymry Cymraeg, o Rymni i Gaerffili, yn nes at ei gilydd ac yn nes at y di-Gymraeg. Yn hynny o beth fe fydd y Steddfod hon yn perthyn i'r cwm i gyd. Omd i'r rhai hynny ohonom sy'n hannu o'r blaenau, mae'r ffaith mai yn mhen ucha'r cwm y bwriedir ei chynnal yn achos llawenydd. Dyma fydd yn rhoi naws arbennig iddi.

Felly, edrychwn ymlaen at Steddfod arall a fydd yn uno'r Cymry oll - nid yn unig y rhai hynny ohonom sy'n siarad Cymraeg. Mae'r frwdfrydedd yma eisoes. Am yr arian; wel, rhaid hyderu y daw'r Cyngor Sir i rannu agwedd iachach y Cyngor Dosbarth. A gobeithio cael cymorth cyfeillion wrth gwrs. Os cofia' i'n iawn, fe gafodd Steddfod y Ddinas dipyn o help gan Gwm Rhymni nôl ym 1978....

Ond mae'n rhy gynnar eto i fecso am arian. Rhaid cael Casnewydd o'r ffordd yn gynta'. Ac o leia' fe fyddwn ni wedi cael digon o bractis. Fe fyddwn ni'n gwybod, heb i Emyr Jenkins orfod egluro, mai ond unwaith bob tair mlynedd y gellir hepgor gofyn am y mesurau caeth traddodiadol yng nghystadleuaeth yr Awdl. Pwy sy' am fod ar y pwyllgor?

Sian Rhiannon.

NOSON CAWS A GWIN
GŴYL DEWI
DYSGWYR DE MORGANNWG

FEL RHAN o ddathliadau Iwbili Tŷ'r Cymry, Heol Gordon, cynhaliwyd noson Caws a Gwin Gŵyl Dewi ar nos Sadwrn 8 Mawrth yn Neuadd y Sgowtiaid, Heol y Bont, Rhiwbeina ar gyfer Dysgwyr De Morgannwg a chyn aelodau Tŷ'r Cymry. Daeth tua chant o bobl ynghyd a chafwyd noson i'w chofio. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Dysgwyr Tŷ'r Cymry dan nawdd Cymdeithas Dysgwyr De Morgannwg. Arweinydd y noson oedd Gwilym Roberts a diddanwyd y dorf gan Phil a Rich Edwards, Sian Thomas (telyn) ac Arthur Bowen.

TWMPATHA:

"Mae sgil i gael Wil i'w Wely" - un o griw'r Dinesydd mewn Twmpath Dawns i godi pres i'r Urdd yn Aberafan yn ddiweddar yn gofyn i Bennaeth Adran Gosmetics siop David Evans, Abertawe sut y llwyddodd i ddod a thros hanner cant o staff y siop a'u partneriaid i'r Twmp. A'r ateb: "Wedes i bob nhw'n mynd i 'Disco and Cabaret at the Afan Lido' - gele ni monyn nhw i Dwmpath gele ni"! Dyna beth yw brwdfrydedd

# ARGYFWNG YR URDD

CYMRU - CYD-DDYN - CRIST

1922- 1986(?)

BETH YW'R URDD I MI.....?

ARGYFWNG
YNTEU
HER?

APÊL AT GYN-AELODAU,
RHIENI A CHYFEILLION YR URDD

YMGYRCH ARIANNOL AR RAN
URDD GOBAITH CYMRU

MAE ANGEN CEFNOGAETH
ARIANNOL AR FYRDER
FYDD YN SICRHAU
INCWM RHEOLAIDD A
PHARHAOL....HEBDDO
FE DDAW'R URDD
I BEN........

AI DYMA'N DYMUNIAD?

BETH YW'R URDD I MI?

Sefydlwyd yr Urdd ym 1922 gan Syr Ifan ab Owen Edwards ar gyfer plant ac ieuenctid Cymru.

Ei ddelfryd:
Gwasanaeth i Gymru, i Gyd-ddyn ac i Grist.

Mae gan yr Urdd aelodaeth o dros 52,000 o blant a phobl ifanc mewn 1200 o Adrannau ac Aelwydydd. Ceir darpariaeth arbennig ar gyfer y Dysgwyr.

Gweithgareddau'r Urdd:

Eisteddfod Genedlaethol
Gwersylloedd
Neges Ewyllys Da
Cwmni Theatr Ieuenctid
Cylchgronnau

MAE'R CYFAN O DAN FYGYTHIAD!
A FYNNWN WNEUD RHYWBETH?
BYDDAI SICRHAU 5,000 O GYFRANIADAU GWERTH £3 Y MIS YN GOLYGU £257,000 (dan gyfamod) POB BLWYDDYN I'R URDD
A YW HYN YN ORMOD I'W OFYN GENNYM.

BETH YW'R URDD I MI.....?

Fel cyn-aelod .....
... ei ddylanwad a'i gyfraniad gwerthfawr i nifer ohonom yn ein gwaith a'n bywyd.

Fel rhiant.....
... ei werth i'n plant - a'n hwyrion - trwy gyfrwng yr Adran, yr Aelwyd, y Gwersylloedd, yr Eisteddfodau.

BETH YW'R URDD I MI.....?

Dyma gyfle i ateb mewn ffordd ymarferol.

CYFAMODWN
Byddai cyfraniad misol dan archeb Banc gan bob cyn-aelod a rhiant yn sicrhau dyfodol yr Urdd. Am bob £1 a roddir mae'r Urdd yn derbyn 43c o ad-daliad treth incwm.

Bydd eich cyfraniad o...
£2 y mis yn werth £34.32 dros y flwyddyn
£3 y mis yn werth £51.48 dros y flwyddyn
£5 y mis yn werth £85.80 dros y flwyddyn

Apeliwn atoch i lenwi'r ffurflen gyfamod a'i dychwelyd NAWR os gwelwch yn dda.
Mae'n fater o frys - NAC OEDWCH
RHOWCH - ER MWYN YR URDD A CHYMRU

**CWMNI URDD GOBAITH CYMRU**
**Gweithred Gyfamod**

Yr wyf i ..........................................................................
o ..........................................................................
trwy hyn yn Cyfamodi i dalu i GWMNI URDD GOBAITH CYMRU ar y .......... dydd o ........... bob blwyddyn am bedair blynedd o'r dyddiad hwn, neu yn ystod fy oes, pa gyfnod bynnag a fyddo'r byrraf, y swm o ....... wedi tynnu ymaith y Dreth Incwm yn ôl y raddfa a fo mewn grym ar y pryd, y swm i'w dalu o'm cronfa gyffredinol o incwm trethedig, fel na fo i mi dderbyn unrhyw fudd personol neu breifat oddi wrth y swm uchod neu unrhyw ran ohono yn ystod y naill na'r llall o'r cyfnodau a nodwyd. FEL TYSTIOLAETH o hyn yr wyf yn gosod fy enw a'm sêl y .......... dydd hwn o ........... 19.......

Arwyddwyd, seiliwyd a throsglwyddwyd gan
..........................................................................
ym mhresenoldeb
Enw ..........................................................................
Cyfeiriad ..........................................................................
..........................................................................
Galwedigaeth ..........................................................................

**Archeb Banc**

Y RHEOLWR
BANC ..........................................................................
CANGEN ..........................................................................
TALER I GYFRIF URDD GOBAITH CYMRU - CYFRIF CASGLU (51059017) YM MANC MIDLAND CYF., ABERYSTWYTH, DYFED (40-08-09) Y SWM O £......... (                    )
YN AWR AC YNA YR UN SWM
* YN FISOL AR Y 1af O BOB MIS
* YN CHWARTEROL AR Y 1af O IONAWR, EBRILL, GORFFENNAF A HYDREF
* YN FLYNYDDOL AR Y 1af O ..........................................
(*) Dileer y cymalau amherthnasol
AM BEDAIR BLYNEDD (Y TALIAD OLAF FYDD AR Y ....................
LLOFNOD ..........................................................................
ENW LLAWN ..........................................................................
RHIF CYFRIF BANC ..........................................................................
CYFEIRIAD ..........................................................................
..........................................................................
MAE'R ARCHEB HON YN DIDDYMU UNRHYW ARCHEB FLAENOROL
SYLW SWYDDFA YN UNIG
PWYSIG: Y CYFEIRNOD I'W NODI GYDA PHOB TALIAD ...............
DYCHWELER I SWYDDFA'R URDD, ABERYSTWYTH NID I'R BANC

# BRAS-ODLAU

gan EMYR LEWIS

DAETH CYFROL newydd un o feirdd mwyaf blaenllaw Bro'r Dinesydd i law y mis hwn, sef 'Hyn o Iachawdwriaeth' gan Gilbert Ruddock. Mae'r gyfrol wedi ei rhannu'n gerddi cyffredinol ac yn gerddi wedi eu casglu dan y testun 'Plant'.

Cryfder gwaith Gilbert Ruddock fel bardd yw ei allu i ysgrifennu yn y wers rydd mewn modd sydd ar yr un pryd yn ddigon ysgafn i gynnal diddordeb ac yn ddigon dwys i gynnal y deall. Mae smaldod chwareus yn cyd fyw a dyfnder ystyr yn ei gerddi. Enghraifft o hyn yn y gyfrol hon yw'r gerdd 'Rhif Anghywir', b'le disgrifir ffôn yn canu yn y nos 'yn trywanu / jeli'r / isymwybod / ac ysgwyd / falfiau / calon dyn / i bwmpio / fel pistonau.'

Erbyn diwedd y gerdd mae'r alwad ffôn yma wedi peidio a bod yn destun metafforau chwaeus fel hyn. Mae'n troi'n arwydd o rywbeth mwy sinistr gan agor ar ystyron ac awgrymiadau newydd:

Nos a dydd
y gall
yr alwad
ddod-
yn ddirgel,
yn annisgwyl,
yn ffrwydrol,
neu yn ddi-gyffro.

Darlun o adeiladau Parc Cathays a geir ar glawr y gyfrol, ac y mae nifer fawr o'r cerddi, yn enwedig yn rhan gyntaf y casgliad, yn ymdrin a Chaerdydd, ac yn arbennig a pherthynas y Cymry Cymraeg a'r ddinas. Yn y cerddi hyn, mae Mr. Ruddock yn gweld y cnewyllyn o Gymreictod ac o Gristnogaeth a geir yn y ddinas hon fel rhyw wrthglawdd sy'n amddiffyn gwarineb rhag yr hyn a wêl fel prysurdeb a gwacter bywyd y rhelyw o drigolion y ddinas. 'Beth ddywedai Dewi, tybed / am y lle?' yw ei sylw ar Ganolfan Siopa Dewi Sant er enghraifft. Yn hyn o beth, mae ar ganol priffordd ideoleg Saunders Lewis, ac mae'n cydnabod hynny yn un o gerddi cryfaf hanner cynta'r gyfrol, 'Gwasanaeth Offeren y Meirw Saunders Lewis':

Cyflwynodd inni ogoniant y
dreftadaeth
a rhoddi rhuddin i'w hamddiffyn
rhag y moch.

Nid yw'r ideoleg yma'n un ddeniadol iawn bob amser. Y mae modd gweld gwerth mewn Cymreictod heb orfod cyfiawnhau hynny mewn termau o gymryd rhan mewn rhyw frwydr oesol rhwng da a drwg. Gellid dadlau mai ei hagwedd tuag at y rhai hynny nad ydynt yn dod o fewn cwmpawd y bobl dderbyniol yw'r peth lleiaf dymunol ynglyn a'r syniadaeth hon. Dyma'r 'moch'. Yn ei gerddi 'Transistoriaid' a 'Top Shop' mae Gilbert Ruddock yn adlewyrchu'r agwedd hon. Yn y naill gerdd, cyferbyna yn eironig ddull byw ieuenctid yn y ddinas ag arferion crefyddol: 'Nid unigrwydd myfyrdod y gell yw hwn.'

Ei gasgliad eironig yw

Mae holl bresenoldeb y Duw nad
yw'n bod
yn crogi wrth strapen
pob allor gludadwy.

Yn 'Top Shop' mae byd y 'merched anghyffwrdd / yn heigio / fel pysgod trofannol' y tu mewn i'r siop sydd yn 'fyd arall.' Unwaith eto, mae cynodiadau cysegredig y geiriau 'byd arall' yn taflu golau eironig ar ddefodau'bywyd dinesig modern.

Dywed y beirniad/nofelydd Eingl-Gymreig Raymond Williams bod y modd y mae confensiynnau llenyddol yn disgrifio llefydd yn rhychwantu 'a range from the abstraction of places from people, through the perception of people as symptoms of places, to the active apprehension of places as made by people.'

Yn nisgrifiadau Gilbert Ruddock o Gaerdydd, mae'r gwahaniaeth yn amlwg rhwng Caerdydd y Cymro Cymraeg capelgar, a Chaerdydd gweddill trigolion y Ddinas. I'r naill, mae'n rhaid gweithio'n ddyfal i gynnal ac i adeiladu, i 'wneud' y lle. Yng nghyd-destun y gweddill, mae Caerdydd yn rhyw gefndir di-enaid, y mae'r bobl yn symptomau ohoni. Goddefol ac amhersonol oedd codi canolfan siopa:

Codwyd adeilad helaeth
dan enw Dewi Sant
yn ein prifddinas ni.

(Pwy, dyweder, yw'r 'ni' yma?). Gweithred bersonol, ysbrydol ac ymwybodol oedd codi Capel:

Bu yma adeiladwyr,
cyd-godwr y ceyrydd sanct

Ond fel y crybwyllwyd eisioes, mae ysgafnder yn perthyn i waith Gilbert Ruddock, a hiwmor yn hytrach na chwerwder sy'n tanio ei eironi. Am y rheswm hwnnw, gellid dadlau bod gwedd fwy dynol ar ei waith nag y sydd ar waith sawl bardd a llenor fu'n coleddu syniadaeth debyg. Mae aml i gerdd yn taflu cilwg yn ol ar y Bardd ei hun, e'r awgrym yw nad persona anffaeledig o anghenrhaid yw'r un y mae'r bardd wedi ei dewis i leisio'r geiriau sy'n ei gerddi. Atgyfnerthu neges y cerddi mae hyn.

Cerddi cyhoeddus yw'r rhai hyn, ac mae dyn yn cael yr argraff mai oherwydd hynny y maent yn cynnwys y safbwynt uniongred Saunders Lewisaidd. Mae'r cerddi sy'n cael eu cynnwys yn ail hanner y gyfrol o dan y testun 'Plant' yn rhai mwy personol.

Eto, mae yma chwarae a myfyrdod. Cerddi annwyl am blant a cherddi i blant. Yma mae dawn weledol Mr. Ruddock yn dod fwyaf i'r amlwg:

a drws y cwpwrdd dillad
ar agor fymryn bach,
gan ddangos oddi mewn
ddau oen syn o sannau gwyn.

Mae gofal rhiant am ei blant yn cael ei fynegi mewn modd cofiadwy tu hwnt mewn cerddi fel 'Llenwi'n Golwg' ac 'Y Pethau Hyn.' Yn y rhan hon o'r gyfrol hefyd y ceir y ddwy gerdd fwyaf llwyddiannus mewn cyfrol sy'n llawn llwyddiant, sef 'Ar Riw Pen-y-Lan' a 'Trogylch'. Mae'r ddwy gerdd yn cofnodi meddyliau rhiant wrth ddisgwyl am fws Ysgol Bryntaf. Yn y cerddi hyn, nid oes ymgais i gyfiawnhau Cymreictod drwy ideoleg cadw'r winllan rhag y moch. Nid cadwraeth negyddol sydd yma ond gobaith cadarnhaol

Chwifia'r dyfodol
o'r tu ôl i'r gwydrau.
Mae'r cargo gwerthfawr eto ar
ei daith,
yn brydferthwch dihafal.
Ond weithiau,
er gloywed y weledigaeth,
brathog yw'r heli yn llygaid dyn
wrth i'r plant
hwylio i ffwrdd.

# Medd y Meddyg

YSGRIFENNAF hwn saith wythnos i mewn i'r flwyddyn newydd. Eisoes cafwyd 424 o achosion o'r frech goch yng Nghaerdydd eleni o'u cymharu ag 175 yn unig ym 1985. Hefyd cafwyd 41 a achosion o'r pas, sy'n bedair gwaith cymaint a'r un cyfnod y llynedd. Mae epidemigs o afiechydon heintus yn dueddol o ddigwydd mewn tonnau, ond y tro hwn mae'r peth yn achosi pryder arbennig oherwydd gellir fod wedi'i osgoi.

Yr ydym fwy neu lai wedi difa diptheria a poliomyelites ym Mhrydain, ac mae'r frech wen wedi diflannu'n llwyr oddiar wyneb y ddaear. Cyflawnwyd hyn trwy raglenni cyson o frechu. Gellid gwneud yr un peth a'r frech, rubella, a'r pas, sy'n parhau i achosi llawer o ddioddefaint plentyndod. Gall rubella achosi niwed anhygoel i'r plentyn yn y groth os ydy'r fam yn cael ei heintio yn ystod misoeddd cynnar beichiogrwydd.

O'r plant a aned yng Nghaerdydd ym 1983 (a ddylai erbyn hyn fod wedi cwblhau eu rhaglenni amddiffynol) does ond ychydig dros eu hanner wedi'u brechu rhag y frech neu pertussis (y pas). Mewn rhai mannau o'r ddinas mae'r canran tipyn yn is na 50%. Does fawr o syndod o felly ein bod yn gweld epidemigs yn dychwelyd unwaith yn rhagor fel y gwelsom y gaeaf yma.

Tan yn ddiweddar roedd gan wahanol feddygon eu hoff raglenni o frechiadau i'r plant a welent ac mae llawer o feddygon wedi bod yn or-ofalus wrth benderfynu a ddylid brechu ai peidio yn wyneb rhyw fan afiechyd arall y gallai'r plentyn fod yn dioddef ohono. Ond nawr mae'r pwyllgor arbennig a sefydlwyd yng Nghaerdydd, i astudio dull a modd o gynyddu'r nifer o blant a frechir, wedi chynhyrchu dogfen bolisi a gymeradwyir gan feddygon teulu, meddygon yr Awdurdod Iechyd Lleol a'r paediatryddion yn yr ysbytai. Wrth i bawb fabwysiadu amserlen gyffredin a safonni rrestr gwrth-arwyddion, a chydag ymdrech adnewyddol ar ran pawb, mae gobaith i fwy o blant wynebu dyfodol diogelach.

Mynegwyd ofnau ynghylch diogelwch rhai o'r prosesau brechu. Yn arbennig, achoswyd llawer o bryder gan y math o frechlyn (vaccine) ar gyfer trin y pas a ddefnyddiwyd ychydig flynyddoedd yn ol. Ond mae'r brechlyn diweddaraf yn well o lawer, ac mae'r fantol wedi troi o blaid brechu yn hytrach na'r peryglon sy'n codi pan fo plentyn yn dal y pas.


Dylai mamau plant sydd newydd eu geni gael eu cario gan "y gyfundrefn" sy'n sicrhau bod gwahoddiadau'n cael eu hanfon ar yr adeg iawn i ymweld a chlinig neu feddyg teulu ar gyfer brechiadau i'w babanod. Dyw hi byth yn rhy hwyr. Os ydych chi wedi colli allan rhywbryd, mynnwch air a'ch meddyg heddiw.

Dr. Don Anderson
Arbennigwr Mewn Meddygaeth Gymunedol
(Hyrwyddo Iechyd)
Awdurdod Iechyd De Morgannwg

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

HTV CYMRU

## Y Gorau yn Gyson i Gymru

# Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru — o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

HTV CYMRU ar S4C


## Y Gorau yn Gyson i Gymru

# £500 am bing-pong

AM SAITH o'r gloch nos Wener 14 Chwefror dechreuodd Ymgyrch Teulu Duw Cymorth Cristnogol gan bobl ifainc Tabernacl, Yr Ais. Y gobaith oedd i'r bobl ifainc chwarae tenis bwrdd am 24 awr yn ddi-dor.

Dechreuodd y "ping-pong" yn brydlon gyda phawb yn cael "shifft" o hanner awr gyda tair awr a hanner o orffwys tan y rota nesaf. Treuliwyd rhan o'r amser yma yn chwarae rygbi i lawr yn y Festri! Heblaw am hynny, gwelwyd eraill unai'n cysgu neu'n chwarae snwcer a "Trivial Pursuit".

Am 11.00 o'r gloch cafwyd swper o gawl a bara ffres i'n cryfhau ar gyfer y noson o'n blaen, tra gwelwyd cystadleuaeth snwcer rhwng dau weinidog a'r ddau'n penderfynu mai'r un a gollai fyddai'n pregethu'r dydd Sul canlynol!

Bu'n rhaid i mi rybuddio'r plant i lawr llawr i ofalu rhag torri'r goleuadau wrth chwarae rygbi, ac yna dyma fi dwy awr yn hwyrach yn mentro Paul Thorburn dros y piano ac yn llwyddo i dorri'r golau! Penderfynais mai gwell oedd canolbwyntio ar y belen wen yn hytrach na dinistrio'r Tabernacl.

Erbyn 3.00 o'r gloch y bore roedd ambell i un wedi rhoi'r gorau i ymladd y blinder ac yn cysgu'n dawel ar lwyfan y festri - un ohonynt yn mentro cysgu mewn troli Tesco!! Bu raid iddo roi'r gorau i'r ymdrech gan i'r bechgyn fygwth ei wthio dros ochr y llwyfan.

Dechreuodd pethau fywhau tua 5.00 y bore gyda'r rhan fwyaf o'r merthyron yn effro ac yn cyfrannu at yr achos yn frwdfrydig iawn. Gwelwyd un yn chwarae dartiau, a'r bwrdd wedi ei leoli uwchben tomen o obenyddion a sachau cysgu, heb sylweddoli bod un o'r merched yn cysgu yn eu canol dan fygythiad y dartiau.

Llusgodd pawb, ond am y ddau a chwareuai tenis bwrdd, i'r bwrdd brecwast am 8.00 o'r gloch gan fwyta brecwast o "cornflakes", bacwn ac wy a chwpanaid o de. Trwy gydol o bore dilynai pawb y rota tenis bwrdd gan berswadio'u coesau i symud i gyfeiriad y bêl.

Am 2.45 y prynhawn gwelwyd bod y gêm fawr rhwng yr Iwerddon a Chymru ar y teledu, a thra roedd y merched yn dal i chwarae tenis bwrdd, roedd y bechgyn yn naturiol a'u golwg ar y gêm rygbi.

Am 7.00 o'r gloch yn brydlon canodd y larwm a dyna'r belen "ping-pong" yn cael ei fwrw ymaith mewn gorfoledd a phawb yn bloeddio mewn hapusrwydd. Y dasg nesaf oedd casglu'r arian.

Y nod oedd i 400 o fudiadau ac eglwysi yng Nghymru gasglu £100 yr un mewn ymateb i'r apêl yn gorffen gyda Gŵyl y Cyngor ar 24 Mai yn Llanelwedd lle disgwylir i Desmond Tutu annerch y cyfarfod.

Mae pobl ifainc y Tabernacl yn falch o gyhoeddi eu bod wedi llwyddo i godi tua £550.

O.N. Diolch i Delun Rees a Graham Thomas am aros gyda'r bobl ifainc trwy gydol y marathon.

## T.T YNG NGHLWB IFOR BACH!

NA, 'DYDI'R Twr Trafoli ddim wedi darfod o'r tir - rydan' ni yma o hyd, ac ar fin dychwelyd i Glwb Ifor Bach. Mae'n ddigon gwir na fu'r grŵp yn amlwg iawn dros fisoedd y gaeaf, ond y mae rheswm da dros hynny. Pan benderfynodd pwyllgor Clwb Ifor Bach na fyddai'r adeilad ar agor ar nos Sul rhaid oedd chwilio am fan cyfarfod arall, ond rhywsut 'doedd yna unlle mor ganolog a chyfleus yn dod i'r amlwg. Doedd dim amdani felly ond newid y drefn, ac ers mis Rhagfyr mae'r Twr Trafoli wedi bod yn cyfarfod dros amser cinio bob yn ail Sul yn nhai rhai ohonom.

Roedd awyrgylch cartrefol a hamddenol fel hyn yn amlwg yn gymorth i bawb i ymlacio ac yn ei gwneud yn haws i sawl un ymuno mewn trafodaeth ac addoliad syml. Ymhlith y rhai sy'n dod i'r Twr Trafoli mae pobl nad ydynt wedi bod ar gyfyl capel nac eglwys er yn blant, eraill sydd yn mynd i wasanaeth o bryd i'w gilydd ond heb wybod yn iawn pam, yn ogystal a chnewyllyn sy'n aelodau yng nghapeli ac eglwysi Cymraeg Caerdydd.

Mae'r Twr Trafoli yn gyfle i siarad yn agored am bethau sydd efallai yn cael eu cymryd yn ganiataol am berson sy'n mynychu capel neu eglwys - yr un pethau, o bosibl, sydd yn achosi penbleth neu nad ydynt yn "gwneud synnwyr" i bobl nad ydynt yn gyfarwydd a thraddodiad capel ac eglwys. Mae'n amlwg fod ar bobl heddiw angen medru rhannu'u amheuon, eu hofnau a'u syniadau am faterion ysbrydol, sydd wedi'r cyfan yn berthnasol i bawb ohonom, nid yn unig i ychydig dethol.

Wedi dweud bod cyfarfodydd mewn tai wedi bod yn llwyddiannus ac wedi denu wynebau newydd, nid yw'n sefyllfa ddelfrydol i grŵp fel y Twr Trafoli, felly mae'r drefn am newid unwaith eto! Rydym am i'r cyfarfodydd fod mor agored a phosibl, ac y mae canolfan gyfleus yn hanfodol i hyn - felly yn ôl a ni i Glwb Ifor Bach! Y gwahaniaeth mawr yw mai ar nos Lun, unwaith y mis, y byddwn yn cyfarfod yno, a hynny bob yn ail a chyfarfod ar y Sul mewn tai. Drwy wneud hyn, gobeithio y gallwn gyfuno manteision y ddau fath o gyfarfod.

Nos Lun Ebrill 21 y byddwn yn ail-ddechrau cyfarfod yng Nghlwb Ifor Bach. "Ffydd ac Amheuaeth" fydd y thema - dylai fod gan lawer rywbeth i'w gyfrannu ar y testun hwn. Naws cwbl anffurfiol a fydd i'r cyfarfod - amser i sgwrsio am y pwnc dan sylw ac amser i gyd-addoli. Unwaith eto, cofiwch fod croeso i bawb o bob oed - nid grwp trafod i athronwyr a diwynyddion yw'r Twr Trafoli o bell ffordd, felly does dim angen i neb deimlo'n swil.

Nid eistedd a sgwrsio yn unig y mae'r Tŵr Trafoli yn ei wneud, chwaith! Mae yna ochr ymarferol i'r grwp hefyd, a thrwy nos Wener Ebrill 25 yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy, byddwn wrthi yn gwneud llu o wahanol bethau (e.e. gwau ar gyfer Oxfam, darllen llyfr a'i roi ar dap at ddefnydd y deillion, ysgrifennu llythyrau ar ran Amnest Rhyngwladol) a chael ein noddi am hynny er mwyn codi arian at Ŵyl Teulu Duw a gynhelir yn Llanelwedd ar Fai 24 eleni. Defnyddir yr arian gan Gymorth Cristnogol tuag at eu gwaith yn ceisio lleddfu newyn yn y Trydydd Byd. Rydym yn anelu at fedru dangos cynnyrch defnyddiol yn ogystal a wynebau blinedig bore wedyn, felly gorau po fwyaf o bennau a syniadau a ddaw at ei gilydd! Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni, a go brin fod angen pwysleisio bod angen noddwyr arnom hefyd!

Rydym hefyd yn trefnu taith gerdded ar gyfer dydd Sadwrn, Mai 10fed, ac y mae cynlluniau ar y gweill i dreulio penwythnos waith yn Nhrefeca ymhen ychydig fisoedd, yn helpu i adnewyddu hen adeilad at ddefnydd y ganolfan.

Cewch wybodaeth am weithgareddau'r Twr Trafoli yn nyddiadur y Dinesydd ac ar bosteri o gwmpas Caerdydd- os hoffech fwy o fanylion mae croeso i chi gysylltu â Meinir (ffôn 752522) Siân (26958) neu Dafydd (374976).

Am y tro y dyddiad i'w gofio yw Nos Lun, Ebrill 21ain am 7.30 yng Nghlwb Ifor Bach - Y Twr Trafoli- "Ffydd ac Amheuaeth."

Dewch draw!

# BWTH RUTH



AMBELL DRO mae meddwl am destun a chyfraniad i chi annwyl gyfeillion yn dipyn o broblem - ag yn pwyso'n drwm arnai am ddyddiau, ond yn wir, y mis yma mae na sawl pwnc liciwn i roi ger eich bron - dyna i chi'r gêm Gwpan Schweppes yna rhwng Crwydriaid Morgannwg a Chaerdydd ar Barc yr Arfau. Pnawn braf o wanwyn, perfformiad gwych gan y Crwydriaid a da eu gweld nhw yn dim cystal pob blewyn a'r cewri proffesiynol sy'n arfer chwarae ar dir y Saint ag a ddigwyddodd ennill y gêm ar bwyntiau o esgid hudol Gareth Davies.

Mi leciwn dynnu'ch sylw at gamp arall sydd wedi rhoi pleser mawr i mi yn bersonol. Dechre Mawrth mi es i draw i Fachynlleth i wneud joban - mi roedd yna lansiad Edefyn Bywyd (Lifeline Wales) ar y bore Llun a meddwl byddai'n syniad da cael gair o brofiad un sy'n byw ar beiriant arennau - gair o lygad y ffynnon fel 'tae. Mairlyn Davies ddaeth i'm cyfarfod o'r tŷ braf uwchben Machynlleth - merch ifanc o Frynaman yn wreiddiol, ond wedi setlo ym Mherllys, Machynlleth ers rhai blynyddoedd. Mi gawsom baned a chyfnewid cydnabod, fel bydd rhywun, yna allan a ni i'r Portakain yn yr ardd a Mairlyn yn rhoi ei hun ar y peiriant arennau ag yn egluro pob cam o'r daith yn gadarn a gyda gwen.

Mi a'th y tap allan fore Llun a mae'n rhaid cyfaddef fod yna le cynnes yn fy nghalon i'r ferch yna (dim ond am fy mod i wedi dod i gysylltiad a hi yn rhinwedd fy ngwaith). Bnawn Gwener canlynol mi gawsom alwad ffôn gan John, gwr Mairlyn, i ddweud fod Mairlyn yma yn y C.R.I. yn yr Uned Arennau ag wedi cael trawsblaniad. Mae hi wedi edrych fel blodyn bach yn yr ysbyty o'r dyddiau cynta wedi'r trawsblaniad. Mi fydd Mairlyn yn ôl ym Machynlleth cyn i chi ddarllen y pwt yma.

A wyddoch chi beth arall? Mae Menna Medi o Lanuwchllyn sy'n teipio'r golofn hon i mi yn un o'r cewri sydd wedi rhoi aren - mae hi wedi bod odd'ma ers rhai misoedd wedi cael y driniaeth er mwyn rhoi aren i'w chwaer ond dwi'n falch o ddweud fod Menna yn cryfhau bob dydd a braf ei gweld eto yn llenwi ei lle yng Nghlwb Ifor Bach ag yma yn Radio Cymru.

"Edefyn Bywyd" go iawn yn de - oes ganddoch chi gerdyn rhoi aren - beth amdani?


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# MOI PWY?

A MINNAU'N pendroni uwchben hyn yma o erthygl - yn methu'n lan a meddwl lle i ddechrau, a beth i'w ddweud, daeth cymorth o le annisgwyl iawn.

Fe ganodd cloch y teleffôn - 'roedd yn ugain munud wedi unarddeg yr hwyr - a minnau eisioes wedi troi tua'r "ciando" ers sbel. "Helo sut wyt ti ers hydoedd - fi sy'ma." "Pwy?", medda finna mewn llais crynedig distaw - wedi'r cyfan, pwy fuasai'n ffonio yr adeg hynny o'r nos am sgwrs? "Dach chi wedi cael nymbar rong os mai Samaritans dach chi isio."

"Moi sy 'ma", medda llais yr ochor arall. "Moi," meddwn, "Moi" - pwy ydy Moi tybed meddyliais, yr ymenydd yn dal i gysgu mae'n amlwg - fe gofiwn fod Moi yn gyfaill i Gapten Penwaig yn "Sboncyn" - ond pa Foi oedd y boi yma tybed?

"Sut ma'r pêl-droed?" medda fo. A dyna'r geiniog yn disgyn a'r darnau'n syrthio i'w lle. "Moi Parri? Chdi sy'na?" "Ia," medda'r llais, "dwi'n chwilio am redwrs." "Rhedwrs," meddwn innau, "i be'?" "I redag." "O, ia, wrth reswm," meddwn i. "Dwi'n chwilio am dim i redag." "Yn bell?" "Rownd Llyn Bala" oedd yr ateb. "Dwi isio chdi a Cen Willias a Gareth Huws a phob aelod arall o glwb Cymric ddwad i fyny yma ym Mis Mehefin i redag rownd Llyn Bala yn ras mini-marathon yr Urdd. Dwi'n codi arian ar gyfer Nant Gwrtheyrn - am ffurfio Cefnogwyr y Nant i gael £10,000 i addasu ty yno ar gyfer gofynion yr anabl. Dyma'r ymgyrch gynta. Ddoi di?"

Am hanner awr wedi unarddeg yr hwyr, a minnau rhwng cwsg ag effro, ni fedrwn feddwl am redag yn ôl i fyny'r grisiau, heb son am fynd rownd Llyn Bala - un filltir ar ddeg o beilter. Ta waeth, dyna oedd yr her, a rhaid cyfaddef, pe na bawn wedi ei glywed yn trafod y fenter ar y radio gyda Hywel Gwynfryn ryw ddiwrnod neu ddau wedi hynny, mi fuaswn yn amheus o gynnwys sgwrs y brawd hwn o Edern yn Llyn. Wedi'r cyfan, dyma un o dynnwyr-coes y Gymru gyfoes. Pwy nad yw'n cofio'r seremoni Cymry-ar-wasgar yn yr Eisteddfod Genedlaethol un flwyddyn yn nechrau'r Saith-degau pan groesawyd dau o'r Caribi i'r ŵyl- Dau o Lŷn na welodd ynys bellach o'u cartref nag Ynys Enlli. A phwy a ymddangosodd ar raglen deledu wedi ei wisgo fel hipi ac a fu'n cystadlu ar raglenni cwis HTV? A phwy a drefnodd ddiwrnod ei briodas yn Nolgellau, a threfnu i'r gwas a'i gyfeillion dramwyo yno yr holl ffordd o Gaerdydd a chanfod mai twyll oedd y cyfan?. Ia, neb ond Moi.

Ond medda chi, beth sydd gan hyn i gyd i wneud a phel droed, ac a Chlwb Cymric yn fwy penodol. Dim byd, mwn, heblaw ei fod yn dod ag ambell atgof melys am y dyddiau rheini pryd y chwaraeai Moi i'r tim. Moi, Met, Twrog, Gari Bells, John Robaits, Ian, Dai, Geraint Huws, Wil, Al Bops i enwi ychydig yn unig ohonynt. Mae na rai ohonynt o gwmpas y brifddinas o hyd wrth reswm, ond mae llawer arall wedi dychwelyd i froydd eu mebyd neu gyffelyb. Tybed beth yw eu hynt a'u helynt, ac yn bwysicach beth yw eu hatgofion hwy am ddyddiau cynnar Clwb Cymric?

Un hir, main oedd Moi, neu felly y byddai yn edrych yn ei "shorts" pel droed beth bynnag, a byddai byth a hefyd yn cael dadl fach gyda'r dyfarnwyr ynglyn a'i enw. Pob tro y gwaeddai am gael y bel gan ei gyd-chwaraewyr ar y cae, "Moi" fyddai ei waedd, ond mynnai'r dyfarnwyr mai "Mine" oedd yr alwad.

Fe fyddai'n gandryll cyn pen dim - y dyfarnwr yn chwibanu am gic gosb am na alwyd enw, a Moi yn prygowtha wrtho mai dyna OEDD ei enw.

"Reffari, what am I supposed to call when I want the ball?". "Your name", medde hwnnw. "That's what I have been doing". "What's your name?", meddai'r dyfarnwr, a'i roi yn daclus yn ei lyfr bach, a Moi wedyn yn cerdded oddiwrtho gan ei alw yn bob enw dan haul y greadigaeth - pob un bron na fyddai'n weddus i'r Dinesydd eu printio.

Ia, neb ond Moi.

A dyma ddod â mi yn daclus at y presennol, a'r chwarae ar y meysydd pêl droed yn ystod mis Mawrth eleni. Fe synnwch wrth glywed mai dim ond dwy gem yn unig a chwaraewyd, un yn erbyn myfyrwyr Cyncoed a'r llall yn erbyn Llanedyrn. Golyga hyn fod na doreth o gêmau ar ôl i'w chwarae wedi dyfod mis Ebrill - o leiaf tair gêm yr wythnos o hyn hyd ddiwedd y mis. Sialens i'r tim, sialens i'r coesau hefyd - cewch wybod y canlyniadau'r mis nesaf.

Colli o dair gôl i un fu'r hanes yn erbyn y myfyrwyr - wedi dechrau da a gôl gynnar gan Cerith. Roedd maes Cyncoed yn anferth ei hyd a'i led a choesau a chyhyrau'r myfyrwyr ifanc yn dal i fynd drwy gydol yr awr a hanner o un pen i'r llall yn ddi-dor. Does ryfedd mai gêm i'w anghofio oedd hi i'r Cymric yn y diwedd, a gorfu rhoi cymorth i ambell un sydd mewn gwth o oedran i gyrraedd yn ôl i'r stafell newid!

Roedd pethau'n well ar y Sadwrn canlynol yn erbyn Llanedyrn a chafwyd buddugoliaeth dda o dair gôl i un y tro yma. Yn wir, gallai'r sgôr fod yn ddwywaith gymiant o ystyried y meddiant a gafwyd, ond gôliau Tony Smith, Simon a'r hynafgwr Gareth Huws, ei gyntaf yn y Premier, a sicrhaodd y fuddugoliaeth a'r ddau bwynt.

Mae angen sawl pwynt arall i sicrhau'r tim yn y Premier ar gyfer y tymor nesaf. Mae mis Ebrill felly yn dyngedfennol i'r Clwb - tybed a fydd yr adroddiad bryd hynny yn un ffafriol. Daliwch i gredu.

---

YMDDEOL:


Dymunwn yn dda i Syr Goronwy a'r Fonesig Daniel ar ymddeoliad Syr Goronwy fel Cadeirydd Awdurdod Sianel Pedwar Cymru o gyfnod arbrofol cyffrous sefydlu S4C. Ar yr un pryd croesawu ei olynydd John Howard Davies, cyn Gyfarwyddwr Addysg Clwyd.

---

CYMORTH I ARTISTIAID

MAE DAU artist o Gaerdydd wedi derbyn "Grantiau Sefydlu" gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae Susan Ann Evans ac Idris Morgan ymhlith yr wyth o artistiaid fydd yn rhannu'r grantiau gwerth £2,800 i gyd. Diben y grantiau yw helpu artistiaid i ymsefydlu yn gynnar yn eu gyrfa. Bu'r cynllun ar waith ers 1981 ac y mae wedi helpu llawer o artistiaid yng Nghymru ar adeg holl-bwysig yn eu bywydau.

---



# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Byddai'n rheitiach canol-bwyntio ar wella eich sefyllfa yn y gwaith y mis hwn er mwyn osgoi ymddygiad rhywun agos atoch sy'n drysu'n lan. Byddwch amyneddgar, daw eto haul ar fryn.

TAURUS: Byddwch yn synnu'ch ffrindiau â'ch cydweithwyr gyda'ch beiddgarwch y mis hwn. Peidiwch da chi â chymryd cyfrifoldeb dros broblemau ariannol rhywun arall.

GEMINI: Mae angen i chi wneud penderfyniad pwysig ynglŷn â'ch gwaith nawr. Cadwch yn glir o broblemau'r galon os yn bosib neu gallent eich rhwystro rhag teithio tua diwedd y mis.

CANCER: Mae'r sêr yn argoeli'n dda am eich gyrfa - ond i chi weithio'n galed. Bydd gofyn i chi fod yn amyneddgar iawn o hyn allan gyda'ch cymar os ydych am gadw'r ddisgl yn wastad.

LEO: Rhaid i chi newid pwyslais ym mhob agwedd o'ch bywyd neu byddwch yn teimlo'n rhwystredig iawn. Mae'n bosibl y byddwch yn teithio cryn dipyn y mis hwn.

VIRGO: Efallai y bydd trafferthion ariannol yn eich poeni - mae hi'n bwysig i chi wynebu'r problemau a pheidio a'u hosgoi na chelu dim - ac fe ddaw popeth yn olreit yn y man.

LIBRA: Ni fydd eraill yn gwerth-fawrogi'r cyfan a wnaethoch trostynt. Ond rhaid cefnu ar hunan-dosturi, efallai mai chi oedd ar fai yn y lle cyntaf. Mae hwn yn gyfnod da i ddechrau prosiect newydd.

SCORPIO: Mae hi'n bryd arafu, neu fe fydd eich iechyd yn dioddef - nid dyma adeg gorau'r flwyddyn i Scorpio. Mae'n bosibl y bydd anghydfod yn y gwaith, bydd angen eich ynni arnoch i ymdopi a hwnnw.

SAGITTARIUS: Mae hi'n bryd gwneud penderfyniad ynglŷn â'ch bywyd personol - ond cymrwch gysur fod hapusrwydd a llwyddiant o'ch blaen. Bydd eraill yn digio oddiwrthych, ac fe fydd arian yn brin os na chymrwch chi ofal.

CAPRICORN: mae pethau'n mynd i newid, bydd rhaid i chi wneud penderfyniad pwysig fydd yn effeithio'ch cartref. Anelwch yn uwch yn y gwaith oherwydd bydd cyfle'n codi cyn bo hir lle medrwch brofi'ch gwerth a'ch gallu.

AQUARIUS: Rydych wedi dysgu llawer bellach am werthoedd bywyd ac erbyn hyn mae gennych agwedd ffres a newydd tuag at eich gyrfa a'ch bywyd personol - ond peidiwch gadael i'r agwedd optimistaidd yma eich arwain i fynd dros ben llestri.


PISCES: Byddwch yn teimlo'n ansicr nawr, ond peidiwch a digalonni. Ddaw hi ddim yn hawdd y mis hwn ond fe fydd hi'n werth brwydro ymlaen. Dyma'r adeg i ddod i dermau a'r sefyllfa yn ara deg ac amyneddgar.

---

VIVA ESPAGNA!

Llongyfarchiadau i Sian Parry Jones ar gael swydd gyda chwmni Global yn Sbaen. Bydd yn chwith i'r Dinesydd hebddi. Paid ag aros yno'n rhy hir Sian, ond pob lwc iti.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 60



AR DRAWS:

1. Roedd hi'n dawel rhwng y ddau pan ddaeth un o'r Saeson o gwmpas a ngweld i yn cymryd llymaid. (7)
5. Gorchwyl yr hen ŵr a welodd y Brenin Da ar Wyl Steffan. (6)
9. Fe ddaw dwr allan o'r pentre hwn. (7)
10. Mae trol yn medru cynnwys popeth sydd ei angen i farchogaeth. (7)
11. "Fel y cywion dan yr ____." (Gwenallt) (3)
12. J.O. ar S4C efallai? (5,1,5)
13. Bryncyn o gylch Penbedw i olchi dillad. (5)
14. Gorweddai yn ei bicini cwta. (9)
16. Ymchwil feddygol (ac ariannol) i ddamwain a ddigwyddodd i rai iach, dwl. (9)
17. C'lama ddylai fod yr amser iawn i wneud bocsys tun. (5)
19. Mae'r holl draffig yn ein difa ni yn yfflon ar lan y môr. (11)
22. Sìort o frenin a dewin yng Ngwynedd ers talwm. (3)
23. "I bwy, Syr, y dylwn ni anfon y cyfrinachau?" Dyna yw ei neges mewn côd. (7)
24. Dyma'r bil ydach yn ei gael allan o lond bocs. (7)
26. Troi. (6)
27. Fe all y pren pigog fod yn ddu neu yn wyn (wen). (7)

I LAWR:

1. Buost yn craffu yn hir. (7)
2. Cartre'r Hogiau. (6,3,6)
3. Rhwng dau a thri y prynhawn, dyweder. (3)
4. Argraff a adewir. (5)
5. Dylanwad Methodistiaid Calfinaidd sy'n gyfrifol am gyfundrefn o genhedloedd (a 500 yn sbar). (9)
6. Nid yw yn rhoi. (2,3)
7. Defod ofergoelus er sicrhau dyfod o'r haf eto? (4'1,4,6)
8. Byddai yn siario. (6)
12. Newydd sbon yn syth o'r tân. (5)
14. Cyflwr yr un sy'n llwythog hefyd. (Emyn) (9)
15. Yr hyn a ddengys dylanwad Ioseff a'i thesis treiddgar. (5)
16. Gall y rhain fod ar y clwt heb yr un bunt. (6)
18. Gŵr trefnus ei ddaliadau? (7)
20. "Nid ofnaf ______". (Salm) (5)
21. Ni fedr sefyll ar bedair coes, ond gwelaf fodd i'w achub. (5)
25. Y gŵr uwchradd hwn. (3)

DATRYSIAD CROESAIR 59
AR DRAWS:
1. Cyrcydai; 2. Seindorf; 10. Yfaf;
11. Lwmpyn o siwgr; 13. Dieuog;
14. Ymlwybro; 15. Hosteli; 16.Dydd Gwyl;
20. Deffroais; 22. Gamblo;
23. Naturiaethwr; 25. Wyna;
26. Ystyrier; 27; Llanarmon.

I LAWR:
2. Ymfyddino; 3. Cyfleusterau;
4. Dychmygol; 5. Islywydd; 6. Dibobl;
7. Loyw; 8. Ofergoel; 12. Isymgymerwyr,
15. Hyd yn hyn; 17. Ysgiwion;
18. Ymlafnio; 19. Isieirll; 21. Afiaith;
24. Titw.

CYSTADLEUAETH RHIF 59:
Dim ond pum cynnig a ddaeth i law, ond roedd pob un ohonynt yn hollol gywir. Yr enw a ddaeth o'r het oedd eiddo Mrs. Gwenllian Gwyn Jones, o'r eglwysnewydd, un o'n "cwsmeriaid cyson". Fe fydd tocyn llyfr ar ei ffordd iddi gyda hyn.

CYSTADLEUAETH RHIF 60:
Tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y hwn eto! Enw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair i gyrraedd Ap lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed erbyn Ebrill 17, os gwelwch yn dda.

CWRS HYFFORDDI NEWYDD

GYDA CHYMORTH Kevin Campell, Pennaeth yr Adran Gymraeg yn Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn trefnu cyrsiau hyfforddi yng Nghaerdydd, y Barri ac ym Mhenybont.

Bydd pob cwrs yn dechrau ar 8 Medi, gan gynnwys cwrs Wlpan 300 o oriau a chwrs meithrin 60 o oriau.

Yn ystod tymor y Nadolig bydd pedwar bore o iaith (9.30 - 11.30, Llun i Iau) pob wythnos a rhai ymwelaidau a chylchoedd meithrin.

Bydd tri bore o iaith yn yr ail dymor ac efallai dau fore yn nhymor yr haf. Yn y tymhorau yma bydd mwy o bwyslais ar y cwrs meithrin.

Er mwyl i'r athrawesau a'r cynorthwragedd sy'n gweithio i M.Y.M. nawr gymryd mantais o'r cwrs bydd rhai sesiynau yn y nos ac un neu ddau o weithdai dydd Sadwrn. Hefyd bydd cyfle i'r Cymry Cymraeg wneud y cwrs meithrin yn unig.

Gobeithio cyn Medi 1987 bydd gan y Mudiad digon o athrawesau a chynorthwragedd yn Ne Morgannwg!

Ond yn y cyfamser mae angen athrawesau
- yn Nhrelai 5 bore yr wythnos 9.00-12.00
- yng Nglan yr Afon 5 bore yr wythnos 9.30-12.00
- yng Nglan yr Afon pnawn Mawrth a Mercher 1.00-3.00.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swyddi neu'r cwrs bydai'r swyddogion datblygu yn falch i glywed oddi wrthych. Cysylltwch a: Elaine Pye: (Caerdydd) 762232. Margaret Knight (Y Fro) 891353.

NOSON I'R DYSGWYR
CLWB IFOR BACH

O GANLYNIAD i lwyddiant Parti Nadolig y Dysgwyr yng Nghlwb Ifor Bach penderfynnwyd dathlu Calan Mai gan gynnal noson o adloniant a dawnsio yn y clwb unwaith eto ar nos Iau y cyntaf o Fai am 8.30. Croeso cynnes i Gymry Cymraeg yn ogystal â'r Dysgwyr. Am fwy o fanylion ffoniwch y Barri 730715.


# TALENT-IAU

Os ydych yn gallu canu, dawnsio, actio neu adrodd darn digri.....

Os oes gennych chi hobi anghyffredin neu gasgliadau diddorol.....

Os ydych chi rhwng 8 a 17 oed.....

Os hoffech chi ymddangos ar S4C ar y gyfres "Talent Iau".....

Os ydych yn gwybod am berson ifanc talentog.....

Cysylltwch a ni ar frys drwy ffonio Caerdydd (0222) 590135

neu

Ysgrifennu at "Talent Iau"
HTV Cymru
Y Ganolfan Deledu
Caerdydd
CF5 6XJ

Byddwn yn cynnal cyfweliadau yn y Gogledd, Dwyrain, Gorllewin a'r De yn ystod mis Ebrill 1986.

HTV CYMRU

## Rhaid i'r Urdd fyw

MAE Gareth Edwards wedi cyflwyno crys rygbi i Bwyllgor Sir yr Urdd ym Morgannwg Ganol i'w werthu mewn arwerthiant a gynhelir yn y Gwanwyn. Bydd yr elw i gyd yn mynd tuag at gronfa Apêl yr Urdd. Mae'r crys yn unigryw gan mai hwn yr oedd Gareth yn ei wisgo yn y gêm fawr a chwaraewyd ar Barc yr Arfau i ddathlu hanner can mlwyddiant yr Urdd ym 1972.

Nid yw Gareth Edwards erioed o'r blaen wedi rhoi un o'i grysau rygbi i'w werthu er fod sawl clwb wedi cael un yn rhodd ganddo. Y tro hwn fodd bynnag, y mae wedi cytuno i'r crys gael ei werthu er mwyn yr achos.

"Tydw i ddim eisiau cael gwared o'r crys", meddai, "ond mae'n rhaid i'r Urdd fyw, ac os daw hwn a thipyn o arian i'r gronfa byddaf wrth fy modd". Gan ei fod yn hollol unigryw yn fy nghasgliad ac yn dwyn cysylltiad mor agos â'r Urdd rwy'n gobeithio'n fawr y bydd rhyw glwb neu ryw unigolyn yn barod i roi pris da amdano ac yn rhoi lle teilwng iddo wedyn".

Byddai sawl crair arall o fyd chwaraeon yn cael ei werthu yn yr arwerthiant gan gynnwys pell rygbi wedi eu harwyddo gan dimau Cymru a Ffrainc a chrys ryngwladol o eiddo Kevin Radcliffe.

I'R COFFRAU:
Diolch i Gwilym a Carys Humphreys am eu cyfraniad o £10 i goffrau'r Dinesydd. Hefyd i Eluned Rook am £25. Gweddill y darllenwyr - melys moes mwy!

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â rhai o aelodau'r Tabernacl o deulu'r diweddar Barchedig Lewis Valentine, sef ei chwaer, Mrs. Elias Evans a'r teulu, ei wyr, Ian Gwyn Hughes, a'i nai, Geraint Hunt. Clywyd llais Mrs. Elias Evans yn siarad â Meurwyn Williams ar Fore Sul cyn yr angladd. Mae'n ddiddorol nodi bod Mrs. Evans yn ferch i weinidog, yn chwaer i weinidog, yn wraig i weinidog ac yn fam yng nghyfraith i weinidog (Y Parch. Wynn Vittle) mae hynny yn siwr o fod yn hynod.

## LLONGYFARCH

BABAN:
Llongyfarchiadau i Judith a David Walters ar enedigaeth mab. Fe'i ganwyd ychydig yn gynt na'r disgwyl, ond roedd ei amseru'n berffaith - ganed ar ddydd Gŵyl Dewi. Braf oedd clywed fod Emyr Dewi a'i fam wedi dychwelyd adref a'u bod ill dau yn holliach.

GENI:
Llongyfarchiadau hefyd i Sandra a Huw Roberts, Llantrisant, ar enedigaeth eu mab, Dylan Huw, ar 18 Mawrth. Mae'r fam a'r plentyn mewn hwyliau da, ac erbyn hyn yn ôl yn eu cartre. A'r sôn yn S4C, lle mae Huw yn gyfrifydd, yw fod y rhedwr o dad eisoes wedi prynu pâr o sgidie rhedeg i'w fab!

GENI:
Llongyfarchiadau i Janette a Hywel Merfyn Jones, Kyle Crescent, Yr Eglwys Newydd, ar enedigaeth mab - Iestyn Gerallt ap Hywel, yn Ysbyty'r Brifysgol ar 27 Chwefror.

## Sut mae'r iechyd?



GWASANAETH YN YR YSBYTAI:
Ers peth amser yr ydym wedi ystyried cychwyn colofn newydd a fyddai'n rhoi gwybod i ddarllenwyr y Dinesydd am bobl a oedd yn ymweld â Chaerdydd er mwyn derbyn triniaeth yn Ysbyty'r Brifysol, neu unrhywun arall o ysbytai'r brifdddinas. Byddwn yn ysgifennu at bapurau bro trwy Gymry maes o law i'w hysbysu o'r bwriad, ond os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n dod i Gaerdydd i dderbyn triniaeth beth am adael i ni wybod, a hynny cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib?

Un ymwelydd diweddar yw John Evans, Llewitha a ddaeth i Ysbyty'r Brifysgol i dderbyn triniaeth llawfeddygol er mwyn rheoli cyflymdra curiad ei galon. Hyfryd oedd clywed am lwyddiant y driniaeth a dymunwn yn dda i Mr. Evans wrth iddo ddychwelyd adref i ddathlu ei benblwydd yn gant a naw ym mis Mehefin.

TRYSORYDD:
Un arall a fu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol yn ddiweddar yw trysorydd gweithgar y Dinesydd Don Jenkins. Rydym yn falch iawn o allu dweud ei fod bellach wedi dychwelyd adref ac edrychwn ymlaen at ei weld yn ein pwyllgorau cyn bo hir.

CROESO GARTRE:
Braf yw clywed bod Jack Jones, Maes y Coed, y Barri, wedi dychwelyd o Ysbyty'r Brifysgol lle y derbyniodd triniaeth llawfeddygol yn ddiweddar. Rydym yn falch iawn o ddeall ei fod ar wella

CWRS CERDDED Y MYNYDDOEDD I DDYSGWYR CYMRAEG

PLAS TAN-Y-BWLCH

CYNHELIR y cwrs hwn yn flynyddol yng Nghanolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri ym Mhlas Tan-y-Bwlch dros y cyfnod Mai 2-5. Y tâl am y tri diwrnod ydy £52.40 ac yn werth pob dimai! Arweinwyr y cwrs ydy Merfyn Williams, Plas Tan-y-Bwlch a Gwilym Roberts, Caerdydd. Mae'r cwrs yn cynyddu yn ei boblogrwydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cwrs ar agor i unrhyw un iach sy eisiau cerdded mynyddoedd Eryri ac eisoes yn gallu cynnal sgwrs sylweddol yn Gymraeg. Nod y cwrs ydy mwynahu'r awyr iach a'r golygfeydd ysblennydd yn ogystal ag ehangu geirfa a chymdeithas yn Gymraeg. Am ragor o fanylion ffoniwch Plas Tan-y-Bwlch: 076685 324.


ar log

TAITH 'AR ÔL DEG'
DAFYDD IWAN
AR LOG

GRAHAM PRITCHARD & DAVE BURNS
YN THEATR Y SHERMAN, CAERDYDD

NOS SUL, EBRILL 13 am 8.00.

Tocynnau £3.50 a £2.50 o'r Swyddfa Docynnau. Ffon: 30451
Am fwy o fanylion cysylltwch a Gwyndaf Roberts: 0792 884639



CWMNI HWYL A FFLAG

WASTAD AR Y TU FAS

gan
Siôn Eirian



ARENA THEATR SHERMAN, CAERDYDD

SHERMAN Theatre

Nos Iau, Nos Wener, Nos Sadwrn,
Ebrill 3ydd, 4ydd, 5ed am 8.00pm
Pris £3.70 Gostyngiad £2.70
Tocynnau - Caerdydd 30451/2

ADDAS I OEDOLION DROS 16eg OED

GYDA CHEFNOGAETH CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU
A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU GOGLEDD CYMRU